

Dynodi Gwasanaethau Dethol Teledu

Yr egwyddorion a'r dulliau y bydd Ofcom yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol

Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd 11 Rhagfyr 2024

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 5 Chwefror 2025

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cefndir	6
3. Beth yw gwasanaethau dethol teledu	9
4. Fframwaith arfaethedig ar gyfer dynodi	16

Atodiad

A1. Datganiad drafft o egwyddorion a dulliau	27
A2. Aseidiadau effaith	33
A3. Fframwaith Cyfreithiol.....	35
A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	41
A5. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	43
A6. Egwyddorion ymgynghori Ofcom.....	47
A7. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	48

1. Trosolwg

- 1.1 Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs) le unigryw yng nghymdeithas y DU. Maent yn darparu newyddion dibynadwy a chywir, ac amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel gan, ar gyfer ac am bobl y DU sy'n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd. Mae ein hymchwil wedi dangos yn gyson bod pobl ledled y wlad yn parhau i werthfawrogi'r cynnwys hwn ac yn troi ato, boed hynny ar gyfer newyddion ac adloniant o ddydd i ddydd neu ddiwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol arwyddocaol.¹ Felly, mae'n hanfodol bod gwylwyr yn gallu dod o hyd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus a dod o hyd iddo'n hawdd.
- 1.2 Mae'r fframwaith rheoleiddio a nodir yn Deddf Cyfathrebiadau 2003 wedi sicrhau bod sianelau teledu llinol PSBs (sef, gwasanaethau teledu darlledu cyhoeddus yBBC, gwasanaeth Channel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C) wedi bod ar gael yn eang ac yn hawdd eu canfod mewn amserlenni rhaglenni electronig ers degawdau. Fodd bynnag, hyd nes pasio Deddf Cyfryngau 2024, nid oedd unrhyw reolau i sicrhau amlygrwydd cynnwys gwasanaeth cyhoeddus mewn amgylcheddau cyfryngau ar-lein.
- 1.3 Mae Deddf Cyfryngau 2024 wedi cyflwyno trefn amlygrwydd ac argaeledd ar-lein newydd sy'n canolbwyntio ar lwyfannau teledu cysylltiedig sy'n galluogi pobl i ddewis a chael gafael ar apiau teledu, neu i ddewis rhwng rhaglenni sy'n cael eu darparu drwy'r apiau hynny. Bydd y drefn newydd hon yn mynnu bod llwyfannau teledu cysylltiedig sydd wedi'u dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn sicrhau bod BBC iPlayer,² unrhyw apiau teledu PSB eraill sydd wedi'u dynodi gan Ofcom, yn ogystal â'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch.
- 1.4 Cyfeirir at lwyfannau teledu cysylltiedig a allai ddod o fewn cwmpas y rheolau newydd hyn yn y ddeddfwriaeth fel 'gwasanaethau dethol teledu' (TSS). Cyn dynodi unrhyw un ohonynt, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom yn gyntaf yn nodi ein hargymhellion ar ddynodi'r gwasanaethau hyn. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar yr adroddiad hwnnw a'i gyhoeddi yn 2025.
- 1.5 Cyn gwneud hynny, rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth wneud ein hargymhellion. Y datganiad hwnnw yw testun yr ymgynghoriad hwn, sy'n egluro'r rhesymau dros ein dull gweithredu arfaethedig.
- 1.6 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
 - a) Mae **Adran 2** yn crynhoi'r fframwaith deddfwriaethol³ a'n cynllun ar gyfer gweithredu'r drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd.
 - b) Mae **Adran 3** yn egluro'r diffiniad o TSS ac yn darparu cyd-destun cysylltiedig ynghylch y farchnad teledu gysylltiedig.
 - c) Mae **Adran 4** yn cyflwyno ein fframwaith arfaethedig ar gyfer gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys ein barn ar y materion y mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i ni eu hystyried.

¹Ofcom, 2024, [Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus: cylch gorchwyl](#); ac Ofcom, 2023, [Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

²Bydd BBC iPlayer yn cael ei ddynodi'n awtomatig (adran 362AA(1)(a) Deddf Cyfathrebiadau 2003).

³ Mae rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol yn Atodiad 3.

- 1.7 Yn olaf, mae ein Datganiad o Egwyddorion a Dulliau drafft wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.
- 1.8 Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **5 Chwefror 2025**. Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi Datganiad terfynol o Egwyddorion a Dulliau cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.
- 1.9 Yn ogystal â chwestiynau'r ymgynghoriad, rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau atodol. Mae'r rhain yn gofyn am farn ar ein syniadau sy'n dod i'r amlwg ynghylch sut gallem fynd ati i lunio ein hadroddiad cyntaf gan nodi ein hargymhellion a dynodiad TSS os bydd yr egwyddorion a'r dulliau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu rhoi ar waith.⁴ Rydym yn bwriadu ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r cwestiynau hyn at y diben hwnnw.
- 1.10 Byddwn wedyn yn ymgynghori ar ein hargymhellion arfaethedig cyn cyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn cynnig cyfres o egwyddorion a dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth lunio adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol gydag argymhellion ar gyfer dynodi TSS.

Mae'r egwyddorion a'r dulliau hyn yn adlewyrchu'r materion canlynol y mae'n rhaid i ni eu hasesu wrth baratoi ein hadroddiadau:

- **Nifer y bobl sy'n defnyddio TSS yn y DU ac a yw'r nifer hwnnw'n sylweddol.** Wrth fesur nifer y defnyddwyr yn y DU, byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Gall hyn olygu defnyddio procsi os ydym o'r farn na ellir mesur niferoedd defnyddwyr unigol yn ddibynadwy. Wrth benderfynu a yw nifer o ddefnyddwyr yn sylweddol, byddwn yn ystyried a yw ein penderfyniad yn cyfrannu at yr amcan polisi i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang. Byddwn yn gosod y trothwy mewn ffordd gymesur sy'n ystyried y manteision a'r rhwymedigaethau rheoleiddio posibl ar ddarparwyr TSS a reoleiddir ac ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y mae eu apiau teledu wedi'u dynodi. Er y byddwn yn ceisio sefydlogrwydd rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau dynodedig, mae penderfynu pa lefel o ddefnydd sy'n arwyddocaol yn dibynnu ar y cyd-destun ac felly byddwn yn ystyried amodau'r farchnad a ffactorau perthnasol eraill bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad.
- **Y modd y defnyddir TSS.** Wrth asesu'r ffyrdd mae TSS yn cael ei ddefnyddio, rydyn ni'n cydnabod y gallai pobl fod yn berchen ar ddyfeisiau gwahanol i gael mynediad at apiau teledu ond ddim yn eu defnyddio'n gyfartal ac efallai na fyddan nhw'n defnyddio rhai dyfeisiau o gwbl. Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r TSS yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Byddwn yn ystyried y data neu'r amcangyfrifon sydd ar gael ynghylch pa mor aml y mae defnyddwyr yn cael mynediad at TSS penodol, yn ogystal â nifer cyffredinol y defnyddwyr.
- **Swyddogaeth dechnegol TSS.** Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel TSS sy'n cael ei reoleiddio os gall gario'r apiau darlledu gwasanaeth cyhoeddus dynodedig, gall gyflwyno apiau teledu a rhaglenni sydd â lefelau gwahanol o amlygrwydd, a gall gynnwys nodweddion i sicrhau bod apiau a rhaglenni ar gael i bobl ag anabledau. Rydym yn cydnabod y gallai fod cyfyngiadau technegol gyda rhai fersiynau

⁴ Mae cwestiynau'r ymgynghoriad a'r cwestiynau atodol wedi'u hamlinellu yn adran 4 ac mae rhestr gryno wedi'i chynnwys yn Atodiad 4.

hŷn o TSS a dyfeisiau hŷn cysylltiedig sy'n dal ar gael yn y farchnad, a byddwn yn ystyried arferion y diwydiant a materion perthnasol eraill i hysbysu ein hadroddiad.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

2. Cefndir

Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno trefn amlygrwydd ac argaeledd ar-lein newydd

- 2.1 Mae'r degawd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid radical yn y ffordd rydym yn cael gafael ar newyddion, gwybodaeth ac adloniant. Er bod gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn dal i gael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n eang, mae'r lefel ehangach o ddewis sy'n cael ei galluogi gan newid technolegol ac sy'n cael ei chrosawu gan gynulleidfaeoddedd wedi digwydd law yn llaw â'r gostyngiad mewn gwylio a gwranddo llinol.⁵
- 2.2 Ar ôl sawl degawd lle'r oedd eu gwasanaethau wedi'u strwythuro o amgylch dosbarthiad llinol, mae darlledwyr wedi bod yn addasu i ddisgwyliadau cynulleidfaeoddedd heddiw. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU wedi datblygu apiau teledu sy'n cynnig cynnwys gwreiddiol, yn ogystal â rhywfaint o raglenni unigryw a thrwyddedig, y gellir cael gafael arnynt ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau cysylltiedig. Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at y mathau hyn o apiau fel 'gwasanaethau rhaglenni rhyngryd' (IPS).⁶
- 2.3 Cyn Ddeddf Cyfryngau 2024, roedd y rheolau i raddau helaeth yn adlewyrchu patrymau technoleg a defnydd y gynulleidfa yn y 1990au a dechrau'r 2000au. Hyd yma, nid yw IPS darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cael eu cynnwys yn y fframwaith rheoleiddio. O ganlyniad, o ran amlygrwydd, roedd y rheolau ond yn diogelu lleoliad y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus llinol ar amserlenni teledu.
- 2.4 Mae'r drefn newydd a gyflwynwyd gan Ran 2 y Ddeddf Cyfryngau – a oedd yn mewnosod Rhan 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) – yn adlewyrchu'r argymhellion a wnaethom i Lywodraeth y DU yn 2021, ac yn adeiladu ar y fframwaith amlygrwydd presennol ar gyfer teledu llinol.⁷ Amcan craidd y dull newydd hwn yw i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys barhau i fod "ar gael i'r mwyafrif helaeth o'r boblogaeth."⁸
- 2.5 I gyflawni hyn, bydd y drefn newydd yn cynnwys llwyfannau teledu cysylltiedig⁹ nad yw Ofcom wedi'u rheoleiddio o'r blaen yn y cwmpas. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei alw'n 'wasanaethau dethol teledu' (TSS). Rhaid darparu TSS mewn cysylltiad â mathau penodol o 'offer teledu rhyngryd' (ITE), y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei

⁵ Ofcom, 2024, [Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Cylch gorchwyl](#); ac Ofcom, 2024, [Cyfryngau'r Genedl y DU 2024](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

⁶ Diffinnir 'gwasanaeth rhaglenni rhyngryd' yn adran 362AA(10) a (11) y Ddeddf.

⁷ Ofcom, 2021 [Sgrin Fach:Trafodaeth Fawr. Argymhellion i Lywodraeth y DU ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

⁸ Ddeddf Cyfryngau 2024, [Nodyn Esboniadol: Cefndir Polisi \(2024 c. 15\)](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024]. Roedd yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi paratoi'r Nodiadau Esboniadol i helpu darllenwyr i ddeall y Ddeddf Seneddol newydd hon. Maent yn rhoi gwybodaeth gefndir am ddatblygu polisi, ond nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf ac nid ydynt yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

⁹ Ofcom, 2024, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#). [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

ddiffinio mewn rheoliadau.¹⁰ Mae'r rheoliadau cychwynnol, a wnaed ym mis Hydref 2024,¹¹ yn nodi 'teledu clyfar'¹² a 'dyfeisiau ffrydio', fel blychau pen-set a ffyn ffrydio,¹³ fel ITE.

- 2.6 Bydd y fframwaith statudol newydd yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau dethol teledu dynodedig (a elwir yn 'wasanaethau dethol teledu a reoleiddir' neu 'RTSS')¹⁴ sicrhau bod yr IPS dynodedig (DIPS)¹⁵ ar gael ac yn amlwg arnynt.¹⁶ Rhaid i ddarparwyr RTSS hefyd sicrhau bod y DIPS a'r cynnwys sy'n cyfrannu at gyflawni cylch gorchwyl PSB¹⁷ wedi'u lleoli'n amlwg ar eu gwasanaethau¹⁸ a bod y gwasanaethau hyn yn hygyrch i bobl ag anabledau.¹⁹

Gweithredu'r drefn newydd

- 2.7 Mae cam cyntaf ein gwaith o weithredu hyn yn canolbwyntio ar ddynodi TSS. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau i ddynodi TSS, a chyn dynodi unrhyw un ohonynt, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom yn gyntaf yn nodi ein hargymhellion ar ddynodi'r gwasanaethau hyn.²⁰
- 2.8 Cyn gwneud hynny, rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth wneud ein hargymhellion.²¹ Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rhesymeg dros ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Datganiad hwn o Egwyddorion a Dulliau, ac mae drafft ohono yn **Atodiad 1**. Rydym yn asesu effaith ein cynigion yn **Atodiad 2**. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys crynodeb o'n dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys disgrifiad o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dynodi TSS a'r rhwymedigaethau y bydd

¹⁰ Adran 362AE (2) y Ddeddf.

¹¹ [The Internet Television Equipment Regulations 2024](#) (2024/1056).

¹² Mae Erthygl 2(2) y rheoliadau yn dweud bod "teledu clyfar" yn golygu "teledu sy'n gallu (a) cysylltu â'r rhyngwrwyd; a (b) sydd wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer (i) galluogi'r defnyddiwr i ddewis a chael gafael ar raglenni; a (ii) dangos rhaglenni".

¹³ Mae Erthygl 2(2) y rheoliadau yn dweud bod "dyfais ffrydio" yn golygu "offer sy'n gallu (a) cysylltu â'r rhyngwrwyd; (b) sydd wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer (i) galluogi'r defnyddiwr i ddewis a chael mynediad at raglenni; a (ii) dangos rhaglenni; a (c) ddim yn gallu dangos rhaglenni ar ei ben ei hun".

¹⁴ Adran 362AF (1) y Ddeddf.

¹⁵ Fel y diffinnir yn adran 362AA(1) y Ddeddf.

¹⁶ Adrannau 362AK a 362AO(1) y Ddeddf.

¹⁷ Mae gan bob PSB gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni. Mae rhagor o wybodaeth am y cylchoedd gwaith hyn wedi'i nodi ym mharagraffau A3.5 Atodiad 3.

¹⁸ Mae'r cyfeiriad at roi lefel briodol o amlygrwyd i wasanaeth rhaglenni rhyngwrwyd dynodedig mewn gwasanaeth dethol teledu a reoleiddir yn cynnwys cyfeiriad at roi "lefel briodol o amlygrwyd" i gynnwys cylch "gwaith gwasanaeth cyhoeddus" ac "unrhyw sianel a restrir sydd wedi'i chynnwys yn y gwasanaeth rhaglenni rhyngwrwyd dynodedig hwnnw, i'r graddau y gellir effeithio ar amlygrwyd y cynnwys neu'r sianel honno drwy weithredu'r gwasanaeth dethol teledu rheoleiddiedig" (adran 362A(3) y Ddeddf). Bydd gweithredu IPS y PSBs yn destun ymgynghoriad ar wahân. I gael rhagor o wybodaeth am ein hamserlen, edrychwch ar: Ofcom, 2024, [Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau](#).

¹⁹ Adran 362AO (4) y Ddeddf.

²⁰ Efallai y byddwn yn paratoi adroddiad ar ein liwt ein hunain, neu efallai y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i ni baratoi un, ac os felly rhaid i ni wneud hynny (adran 362AG(1), (3) a (6) o'r Ddeddf). Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gyngor Ofcom, gall roi disgrifiad penodol i ni o'r TSS sydd i'w ddynodi. Mae Adran 4, paragraffau 4.2-4.3, ac Atodiad 3 paragraffau A1.3, ac A1.12-A1.13 yn trafod y pwerau dynodi yn fanylach.

²¹ Adran 362AG (9) y Ddeddf. Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwnnw ond rhaid inni gyhoeddi'r datganiad diwygiedig neu'r datganiad newydd (adran 362AG(10) y Ddeddf).

darparwyr RTSS yn ddarostyngedig iddynt.²² Rydym wedi ystyried y dyletswyddau hyn wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y Datganiad drafft o Egwyddorion a Dulliau.

- 2.9 Ein bwriad yw cyhoeddi Datganiad terfynol o Egwyddorion a Dulliau yn gynnar yn 2025. Byddwn wedyn yn ymgynghori ar ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn bwriadu cwblhau a chyhoeddi ein hadroddiad yn ail hanner 2025.²³
- 2.10 Er mai'r Ysgrifennydd Gwladol sydd i ddynodi TSS, cyfrifoldeb Ofcom yw penderfynu a yw IPS y PSB²⁴ yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi a nodir yn y Ddeddf.²⁵ Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hymgyngoriad cyntaf ynghylch ein dull gweithredu ar gyfer dynodi IPS yn gynnar yn 2025.²⁶
- 2.11 Bydd ail gam y gweithredu yn canolbwyntio ar baratoi'r Codau Ymarfer, a fydd yn nodi sut gall darparwyr RTSS gydymffurfio â'u dyletswyddau o ran amlygrwydd a hygyrchedd.²⁷ Byddwn hefyd yn paratoi ein Canllawiau ar sut gall darparwyr RTSS a PSBs weithredu'n gyson gyda'r amcanion y mae'n rhaid eu cyflawni pan fyddant yn trafod trefniadau cludo.²⁸ Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y dogfennau hyn tua diwedd 2025.

²² Bydd y fframwaith cyfreithiol hwn hefyd yn cael ei atodi i'n Datganiad o Egwyddorion a Dulliau pan gyhoeddir y fersiwn terfynol.

²³ I gael amserlen fanwl o'n proses weithredu, gweler: Ofcom, 2024, [Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau](#).

²⁴ Bydd BBC iPlayer yn cael ei ddynodi'n awtomatig (adran 362AA(1)(a) Deddf Cyfathrebiadau 2003).

²⁵ Adran 362AA (2) y Ddeddf.

²⁶ I gael rhagor o wybodaeth am ein hamserlenni gweithredu ehangach, ewch i: Ofcom, 2024, [Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

²⁷ Adran 362AP y Ddeddf.

²⁸ Adrannau 362AL a 362AM y Ddeddf.

3. Beth yw gwasanaethau dethol teledu

- 3.1 Yn yr adran hon rydym yn nodi'r cyd-destun ar gyfer cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch dynodi TSS. Rydym yn:
- ddisgrifio pwysigrwydd cynyddol gwyllo ar-lein o ran y ffordd mae pobl yn gwyllo teledu;
 - nodi'r rôl y mae llwyfannau meddalwedd yn ei chwarae o ran galluogi gwylwyr i gael gafael ar gynnwys a'i ddarganfod; ac
 - esbonio sut mae'r diffiniad statudol o TSS yn berthnasol i llwyfannau meddalwedd.

Mae gwylwyr yn y DU yn gwyllo mwy o gynnwys teledu ar-lein, yn bennaf drwy setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio

- 3.2 Mae arferion gwylwyr y DU wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae pobl yn gwyllo mwy o deledu ar-lein, sy'n cael ei sbarduno gan nifer fawr o bobl yn defnyddio band eang, amrywiaeth o ddyfeisiau cysylltiedig â galluedd fideo, a llwyfannau a gwasanaethau newydd sy'n darparu catalogau enfawr ar-alw, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol â chyllideb fawr.²⁹
- 3.3 Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn y DU heddiw yn cynnwys dyfais ar gyfer gwyllo teledu dros y rhyngwrwyd, a gellir defnyddio'r mwyafrif helaeth (86%) o brif setiau teledu³⁰ i wyllo cynnwys teledu ar-lein.³¹ Yn benodol, mae 16% o brif setiau teledu, neu dros 4 miliwn o unedau, yn dibynnu'n llwyr ar gynnwys sy'n cael ei ddarparu ar y rhyngwrwyd, gan nad ydynt wedi'u cysylltu â rhwydwaith darlledu traddodiadol (teledu daearol digidol, lloeren neu gebl).³² Rhagwelir y bydd y gyfran hon yn cynyddu i fwy na thraean erbyn 2030.³³
- 3.4 Gall pobl ddefnyddio gwahanol fathau o ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwyd i wyllo'r teledu.³⁴ Dyma'r rhai sy'n cael eu defnyddio fwyaf:
- Setiau teledu clyfar:** setiau teledu sy'n gallu defnyddio'r rhyngwrwyd sy'n caniatáu i bobl gael gafael ar gynnwys teledu ar-lein yn uniongyrchol heb galedwedd ychwanegol.
 - Dyfeisiau ffrydio:** dyfeisiau allanol sy'n cysylltu â set deledu ac sy'n caniatáu i bobl gael gafael ar gynnwys ar-lein. Y math mwyaf cyffredin o ddyfais ffrydio yw blychau pen-set, sy'n caniatáu i bobl wyllo cynnwys darllediadau a theledu-drwy-dalu ar set deledu. Mae

²⁹Mae dadansoddiad manylach o'r tueddiadau cyffredinol hyn ar gael yn adroddiadau Ofcom [Dyfodol Dosbarthu Teledu](#) a [Chyfyngau'r Genedl 2024](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

³⁰Mae 'prif set deledu' yn cynnwys y set deledu sy'n cael ei defnyddio fwyaf ym mhob cartref a dim ond y setiau teledu hynny sy'n cael eu defnyddio'n weithredol.

³¹Ofcom, 2024, Adroddiad [Dyfodol Dosbarthu Teledu](#), paragraffau 3.30-3.31 (dadansoddiad 3 Reasons / MTM a gynhaliwyd ar gyfer gwaith o'r fath).

³²Ofcom, 2024, Adroddiad [Dyfodol Dosbarthu Teledu](#), paragraffau 3.30-3.31 (dadansoddiad 3 Reasons / MTM a gynhaliwyd ar gyfer gwaith o'r fath).

³³Ofcom, 2024, Adroddiad [Dyfodol Dosbarthu Teledu](#), paragraff 3.32 (dadansoddiad 3 Reasons / MTM a gynhaliwyd ar gyfer gwaith o'r fath).


³⁴Ofcom, 2024, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#). Tudalennau 8-9

blychau pen-set wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwyd ac yn caniatáu i bobl gael gafael ar gynnwys teledu ar-lein, gan gynnwys deunydd trydydd parti. Maent fel arfer yn cael eu darparu gan gwmnïau teledu drwy dalu i'w tanygrifwyr. Dyfeisiau ffrydio cyffredin eraill yw **ffyn ffrydio**, y gall pobl eu prynu am gost gymharol isel heb danysgrifiad.

3.5 Mae tystiolaeth yn dangos bod setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio, sydd wedi cael eu nodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel ITE,³⁵ yn cael eu defnyddio gan gyfran uchel o gartrefi yn y DU i wylïo teledu ar-lein.³⁶ Fel y dangosir yn **Ffigur 1**, mae'r defnydd o'r dyfeisiau hyn wedi dod yn gyffredin: yn 2024, mae dros 64 miliwn yn cael eu defnyddio'n weithredol mewn cartrefi yn y DU, i fyny o 52 miliwn yn 2019.³⁷

3.6 Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn sefydlog. Er bod nifer y setiau teledu clyfar wedi bod yn cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae blychau pen-set sy'n cael eu defnyddio'n weithredol wedi dechrau gostwng wrth i ddyfeisiau ffrydio eraill gael eu defnyddio fwyfwy. Ar yr un pryd, mae pobl hefyd yn cael gafael ar gynnwys teledu drwy gysylltu eu setiau teledu â ffôn symudol, consol gemau neu gyfrifiadur, er bod llai yn gwneud hynny ar hyn o bryd.³⁸

Ffigur 11: Y prif fathau o ddyfeisiau ar gyfer gwylïo teledu ar-lein, a nifer yr unedau sy'n cael eu defnyddio'n weithredol (miliynau): 2019-2024



Ffynhonnell: Omdia. Mae 'dyfeisiau ffrydio eraill' yn cyfeirio at ffyn a blychau/cardiau ffrydio pwrpasol. Sylwer: Mae'r data dyfeisiau ffrydio a gyflwynir yma yn cynnwys ffyn/blychau â brand NOW tan 2021, y flwyddyn y cawsant eu terfynu gan Sky; mae eu heithrio o'r data yn dilyn hyn yn arwain at or-ddatgan y gostyngiad mewn dyfeisiau ffrydio yn 2022.

³⁵Rheoliad 2(1) o [Reoliadau Offer Teledu Rhyngwrwyd 2024](#) (2024/1056).

³⁶Fodd bynnag, wrth i arferion gwylïo newid a thechnoleg newydd ddod i'r amlwg, mae'n agored i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau newydd i newid pa ddyfeisiau a allai fod o fewn cwmpas y drefn fel y nodir yn adran 362AE(2) a (7) y Ddeddf.

³⁷Omdia, 2024.

³⁸Yn ôl [arolwg Traciwr Technoleg](#) Ofcom (t.650-651), defnyddir consolau gemau (11%), ffonau clyfar (10%), gliniaduron/cyfrifiaduron (8%) a dyfeisiau tabled (6%) gan gyfrannau is o bobl i ffrydio cynnwys i set deledu na setiau teledu clyfar (42%), blychau pen-set (25%) a dyfeisiau ffrydio (17%).

3.7 Mae'r tueddiadau hyn yn golygu bod pobl yn treulio llai o amser yn gwyllo'r teledu drwy dulliau traddodiadol. Gostyngodd y nifer cyfun sy'n gwyllo teledu byw a recordiadau o sianeli darlledu i 50% o gyfanswm gwyllo teledu a fideos yn 2023, i lawr o amcangyfrif o 70% yn 2017.³⁹ Mae ffrydio a gwyllo fideo ar-alw (VoD) yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r 50% arall o'r amser gwyllo, sy'n cael ei sbarduno'n bennaf gan wasanaethau fideo ar-alw â thanysgrifiad fel Netflix, llwyfannau rhannu fideos fel YouTube, a gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr fel BBC iPlayer, ITVX, neu chwaraewr Channel 4.⁴⁰

Mae llwyfannau meddalwedd yn caniatáu i wylwyr gael gafael ar gynnwys a'i ddarganfod

3.8 Er mai dyfeisiau caledwedd fel y rhai a drafodir uchod yw'r offer ffisegol y mae gwylwyr yn eu defnyddio i gael gafael ar gynnwys ar eu setiau teledu, y llwyfannau meddalwedd sydd wedi'u hintegreiddio i'r dyfeisiau hynny sy'n galluogi gwylwyr i lywio, dewis a gwyllo rhaglenni.⁴¹

3.9 Mae gan bob llwyfan meddalwedd ddwy elfen graidd⁴² sy'n berthnasol i gyflwyno cynnwys:

- a) **Rhyngwyneb defnyddiwr**, y mae gwylwyr yn ei ddefnyddio i ganfod a dewis cynnwys, fel arfer gyda chymorth rheolydd pell. Mae rhyngwynebau defnyddwyr fel arfer yn trefnu apiau ffrydio, gwasanaethau ar-alw a chynnwys yn dabiâu a rhesi, a all gynnwys meysydd cynnwys sy'n cael eu hargymell yn seiliedig ar algorithmau (e.e. rhes 'gwyllo nesaf') yn ogystal â meysydd cynnwys y gall darparwyr cynnwys eu curadu eu hunain (e.e. rhes o raglenni sydd 'ar gael ar ITVX erbyn hyn').
- b) **System weithredu (OS)**, sy'n rheoli adnoddau a gweithrediadau'r ddyfais ac yn rheoli'r rhyngwyneb defnyddiwr. Ymhlith swyddogaethau eraill, mae'n pennu pa gynnwys sy'n cael ei ddangos i wylwyr drwy reoli swyddogaethau chwilio, arddangos a systemau argymell.⁴³ Mae angen i ddarparwyr cynnwys ddatblygu apiau, fel yr IPS a gynigir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n gydnaws â'r system weithredu.

3.10 Mae **Ffigur 2** yn dangos y berthynas rhwng y caledwedd a'r meddalwedd, y rhyngwyneb rhwng darparwyr cynnwys a gwylwyr, ac enghreifftiau o wahanol gydrannau a swyddogaethau pob un.

³⁹ Dadansoddiad Ofcom o ddata gwyllo teledu a fideo. Ffynhonnell data 2023 yw Barb ar wyllo ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref; mae data 2017 wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar Barb, Touchpoints a ComScore.


⁴⁰ Dadansoddiad Ofcom o ddata gwyllo teledu a fideo. Y ffynhonnell ddata yw Barb ar wyllo ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref.

⁴¹ Ofcom, 2024, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#). Tudalennau 9-10

⁴² I gael trafodaeth fanylach am y nodweddion hyn, gweler Ofcom, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#); ac MTM, [Review of TV user interfaces in the UK market: current offering and future developments. Final report for Ofcom](#), 2019.

⁴³ Mae systemau argymell yn algorithmau i awgrymu cynnwys i wylwyr ar sail eu dewisiadau a'u hymddygiad.

Ffigur 2: Cydrannau dyfeisiau ITE a llwyfannau meddalwedd sy'n berthnasol i gyflwyno cynnwys i wylwyr



Ffynhonnell: Ofcom.

- 3.11 Darparwyr y llwyfannau meddalwedd hyn sydd fel arfer yn rheoli pa gynnwys sy'n hygrch a sut mae'n cael ei gyflwyno ar sgrin deledu'r gwylwyr.⁴⁴ Fel y disgrifiwyd yn ein gwaith diweddar ar setiau teledu cysylltiedig, yn gyffredinol mae gweithredwyr llwyfannau'n negodi â darparwyr cynnwys, gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ynghylch y telerau cludo masnachol a thechnegol, gan gynnwys lefel yr amlygrwydd a roddir i ap darparwr cynnwys a rhaglenni unigol.⁴⁵
- 3.12 Mae nifer o lwyfannau gwahanol ar gael yn y DU. Mae **Ffigur 3** yn dangos y prif lwyfannau gydag amcangyfrifon o nifer gysylltiedig y dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio'n weithredol yn 2024, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl y math o ITE y mae pob llwyfan yn cael ei ddefnyddio arno. Mae'r darparwyr llwyfannau mwyaf yn cynnwys Sky, Google (sy'n darparu teledu Google TV ac Android TV)⁴⁶ a Samsung, sydd rhyngddynt yn cael eu defnyddio ar fwy na 33 miliwn o ddyfeisiau, ychydig dros 50% o'r cyfanswm. Dilynir y rhain gan LG, Amazon, a Virgin Media, pob un yn cael ei ddefnyddio ar dros 5% o'r dyfeisiau presennol, ac yna nifer o ddarparwyr eraill.⁴⁷


⁴⁴ Ofcom, 2024, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#); ac MTM, [Review of TV user interfaces in the UK market: current offering and future developments. Final report for Ofcom](#), 2019.

⁴⁵ Ofcom, 2024, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#). Tudalennau 16-19

⁴⁶ Mae Google TV yn esblygiad wedi'i ail-frandio o Android TV. Dywed Google ar ei wefan fod "Google TV yn cael ei bweru gan system weithredu sylfaenol o'r enw Android TV OS. Mae rhai setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio yn cael eu pweru gan Android TV OS ond nid oes ganddynt rhyngwyneb Google TV. Mae'r dyfeisiau hyn yn cael eu galw yn ddyfeisiau teledu Android" (Google TV, 2024, [Google TV FAQs](#) [cyrchwyd : 09 Rhagfyr 2024]).

⁴⁷ I gael dadansoddiad manylach am y farchnad hon, gweler Ofcom, 2024, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#), 11-13.

Ffigur 32: Llwyfannau yn y DU, a nifer gysylltiedig o ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio'n weithredol (miliynau): 2024



Ffynhonnell: Omdia. Nodiadau: Pob dyfais sy'n cael ei defnyddio'n weithredol, gan gynnwys ar setiau teledu eilaidd – ar gyfer darparwyr teledu-drwy-dalu fel Sky, mae hyn yn cynnwys blychau pen-set 'aml-ystafell'⁴⁸. Mae 'Arall' yn cynnwys rhai llwyfannau na ellir mesur y data ar eu cyfer yn gywir eto, a gall rhai ohonynt gynnwys y llwyfannau a restrir yn y ffigur. Mae hefyd yn cynnwys dyfeisiau 'gwaddol'.⁴⁹

3.13 Mae'r rhan fwyaf o'r prif llwyfannau meddalwedd wedi'u dylunio i gael eu defnyddio ar ddyfais brand darparwr y llwyfan hwnnw. Fel y dangosir yn **Ffigur 4**, mae enghreifftiau'n cynnwys setiau teledu clyfar Samsung sy'n defnyddio ei llwyfan Tizen, neu setiau teledu clyfar LG sy'n gweithredu llwyfan perchnogol y cwmni ei hun. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir yn gyffredinol gan fod rhai cwmnïau hefyd yn trwyddedu eu llwyfan meddalwedd i gwmnïau caledwedd trydydd parti. Er enghraifft, mae Google yn trwyddedu ei llwyfannau meddalwedd i wneuthurwyr dyfeisiau fel Sony ar gyfer ei setiau teledu clyfar Sony, ac mae llwyfan Amazon Fire a llwyfan Roku yn cael eu defnyddio ar setiau teledu clyfar sy'n cael eu cynhyrchu gan gwmnïau caledwedd eraill.⁵⁰

Ffigur 4. Enghreifftiau o wahanol TSS ac ITE cysylltiedig

⁴⁸ Mae 'Aml-ystafell' yn cyfeirio at fath o ychwanegyn tanysgrifio i deledu-drwy-dalu lle mae'r cwsmer yn cael un neu fwy o flychau pen-set ychwanegol i'w defnyddio ar setiau teledu ychwanegol yn y cartref.

⁴⁹ Mae dyfeisiau 'gwaddol' yn y set ddata hon yn cyfeirio at ddyfeisiau hyn y mae gweithgynhyrchwyr / gweithredwyr llwyfannau yn debygol o fod wedi rhoi'r gorau i ddarparu diweddariadau i systemau gweithredu ar eu cyfer, yn ogystal â chenedlaethau hyn o flychau pen set a llwyfannau cysylltiedig sydd â swyddogaethau mwy cyfyngedig ac sy'n cael eu dileu'n raddol gan y gweithredwyr sy'n eu rhedeg, gan gyflwyno cynnyrch teledu cysylltiedig fwy diweddar. Efallai y bydd dyfeisiau nad ydynt yn cael diweddariadau OS mwyach yn dal i allu cefnogi apiau poblogaidd fel YouTube, Netflix, neu BBC iPlayer; mae cefnogaeth ar gyfer apiau â llai o gynnwys yn debygol o fod wedi dod i ben neu bydd yn dod i ben dros amser.

⁵⁰ Ofcom, 2024, [Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith](#), Tudalennau 13-15.

	Examples
	Teledu clyfar gan ddefnyddio TSS eich hun Teledu clyfar Samsung gyda Tizen OS Teledu clyfar LG gyda WebOS
	Teledu clyfar gan ddefnyddio TSS trydydd parti Teledu clyfar Sony gyda Google OS
	Blwch pen-set gan ddefnyddio TSS eich hun Sky Stream gyda Sky Entertainment OS
	Ffon ffrydio gan ddefnyddio TSS eich hun Chromecast gyda Google TV OS Amazon Fire Stick gyda Fire OS

Ffynhonnell: Ofcom.

Rydym yn ystyried bod y llwyfannau meddalwedd hyn yn TSS o dan y Ddeddf

- 3.14 Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn diffinio TSS ar sail pedwar maen prawf cronus. Rhaid i TSS fodloni'r canlynol:
- “darperir drwy'r rhyngwrwyd”;
 - “darperir mewn cysylltiad ag ITE”;
 - “yn cynnwys cyflwyno IPS”;
 - “galluogi defnyddiwr i ddewis rhwng a chael mynediad at IPS neu raglenni a ddarperir gan yr IPS hynny, neu'r ddau.”⁵¹
- 3.15 Rydym o'r farn bod y llwyfannau meddalwedd a ddefnyddir ar setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio yn bodloni'r meini prawf hyn. Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae'r llwyfannau hyn yn hanfodol er mwyn galluogi gwylwyr i gael gafael ar apiau teledu a'u cynnwys, a dyma'r ffordd mae'r deunydd hwn yn cael ei gyflwyno. Maen nhw hefyd yn cael eu darparu drwy'r rhyngwrwyd a thrwy ddefnyddio dyfeisiau (teledu clyfar, a dyfeisiau ffrydio fel blychau pen-set a ffyn ffrydio) y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u nodi fel ITE.⁵²

Sefydlu pwy sydd â 'rheolaeth gyffredinol' dros TSS

- 3.16 Fel yr eglurir uchod, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi RTSS.⁵³ Yna, 'darparwr' pob RTSS sy'n gorfod cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r Ddeddf yn datgan mai dim ond un darparwr TSS y gellir ei gael, sef 'y sawl sydd â rheolaeth gyffredinol' dros y ffyrdd y mae'r gwasanaeth hwnnw'n cyflwyno apiau

⁵¹ Adran 362AE (1) y Ddeddf.

⁵² Adran 362AE (2) y Ddeddf.

⁵³ Gweler adran 2, paragraff 2.7 o'r ddogfen hon (adran 362AF(1) o'r Ddeddf).

teledu i'w ddefnyddwyr.⁵⁴ Mae hyn yn golygu, yn ôl y gyfraith, mai dim ond un person sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol perthnasol ar gyfer RTSS penodol. Felly, mae sefydlu pwy sydd â 'rheolaeth gyffredinol' yn berthnasol i'r broses ddynodi.

- 3.17 Rydym yn egluro uchod bod rhai darparwyr yn trwyddedu eu llwyfannau meddalwedd i gwmnïau caledwedd trydydd parti (gweler yr enghreifftiau yn **Ffigur 4**). Pan fydd cwmni'n cadw rheolaeth gyffredinol dros y llwyfan meddalwedd trwyddedig, byddwn fel arfer yn ystyried y llwyfan yn un TSS ar draws yr holl wahanol frandiau caledwedd y mae wedi'i osod arnynt. Fel enghraifft, pan fydd cwmni A yn trwyddedu ei llwyfan meddalwedd i gwmnïau caledwedd B ac C, os yw cwmni A yn cadw rheolaeth gyffredinol, yna byddai ei blatfform meddalwedd yn cael ei ystyried yn un TSS o dan y Ddeddf, a chwmni A fyddai'n gorfod cydymffurfio â'r Ddeddf pe bai ei TSS yn cael ei ddynodi.
- 3.18 Rydym yn cydnabod y bydd cwmni, mewn rhai achosion, yn trwyddedu ei llwyfan meddalwedd i gwmnïau caledwedd trydydd parti gan roi rheolaeth gyffredinol iddynt dros y ffordd y cyflwynir IPS ar llwyfan o'r fath. Yn yr achosion hyn, bydd pob cwmni caledwedd yn cario TSS unigol ac, os cânt eu dynodi, byddant yn gyfrifol am gydymffurfio â'r drefn mewn perthynas â'r TSS ar eu caledwedd. Er enghraifft, lle mae'r cwmni'n trwyddedu ei llwyfan meddalwedd i gwmnïau caledwedd Y a Z, ac mae gan y cwmnïau caledwedd Y a Z rheolaeth gyffredinol dros llwyfannau o'r fath fel y mae wedi'i osod ar eu caledwedd, mae'n golygu bod yna ddau TSS ar wahân. Cwmni caledwedd Y fydd yn gyfrifol am y TSS sy'n gweithredu ar ei galedwedd, a chwmni caledwedd Z fydd yn gyfrifol am y TSS ar wahân ar ei ddyfeisiau.

Ystyried gwahanol fersiynau o TSS

- 3.19 Rydym hefyd yn cydnabod bod yr un TSS fel arfer yn cael ei gario ar draws amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau a modelau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gall setiau teledu clyfar o'r un cwmni caledwedd weithredu gyda gwahanol fersiynau o TSS penodol.⁵⁵ Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod y gwahanol fersiynau hyn o wasanaeth yn gyfystyr ag un TSS o dan y Ddeddf.
- 3.20 Fodd bynnag, rydym yn deall y gallai fersiynau hyn o TSS fod â chyfyngiadau technegol a allai atal darparwr TSS rhag gallu cydymffurfio â'i rwymedigaethau rheoleiddio mewn perthynas â fersiynau o'r fath. Yn adran 4, rydym yn egluro ein dull arfaethedig o ystyried swyddogaethau TSS wrth baratoi adroddiad.⁵⁶

⁵⁴ Y 'darparwr' o dan y Ddeddf yw 'Y person, a'r unig berson, sydd i'w drin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai'n darparu gwasanaeth dethol teledu, yw'r person sydd â rheolaeth gyffredinol dros y modd y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno i'w ddefnyddwyr y gwasanaethau rhaglenni rhyngwyd sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth' (adran 362AE(5) y Ddeddf).

⁵⁵ Er enghraifft, gall teledu clyfar sydd ar gael yn y farchnad weithredu gyda TSS 1.0 neu 2.0. Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod fersiynau o'r fath yr un TSS.

⁵⁶ Gweler adran 4, paragraffau 4.32-4.43 y ddogfen hon.

4. Fframwaith arfaethedig ar gyfer dynodi

- 4.1 Mae'r adran hon yn trafod y fframwaith y bwriadwn ei ddefnyddio pan fyddwn yn paratoi ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddynodi TSS. Rydym yn:
- egluro'n fyr y ddau ddull gwahanol o ddynodi yn y Ddeddf;
 - trafod sut rydym yn bwriadu ystyried y materion y mae'n rhaid i ni eu hasesu o dan y Ddeddf yn ogystal â materion ychwanegol sy'n berthnasol yn ein barn ni i'n hasesiad.

Argymell pa fathau o TSS y gellir eu dynodi

Pwerau dynodi

- 4.2 O dan y Ddeddf, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi TSS drwy reoliadau gan ddefnyddio dau bŵer: drwy bennu TSS unigol, neu drwy ddisgrifiad TSS.⁵⁷ Bydd rheoliadau dynodi unigol yn enwi TSS unigol i'w reoleiddio. Bydd rheoliadau dynodi drwy ddisgrifiad yn nodi disgrifiad o'r TSS sydd i'w reoleiddio, a bydd unrhyw TSS sy'n bodloni'r disgrifiad hwnnw yn cael ei ddynodi.⁵⁸
- 4.3 Dim ond ar ôl cael adroddiad gan Ofcom yn nodi ein hargymhellion ar arfer y pŵer dynodi perthnasol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau dynodi.⁵⁹ Efallai y byddwn yn argymell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn dynodi TSS gan ddefnyddio un pŵer neu'r ddau bŵer.⁶⁰ Er mwyn sicrhau tryloywder, byddwn yn egluro yn ein hadroddiad pam rydym wedi argymell defnyddio pŵer penodol.

Materion i'w hasesu

- 4.4 Pan fydd Ofcom yn paratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion ar ddynodiadau unigol, rhaid i ni asesu: (a) nifer y defnyddwyr TSS penodol yn y DU ac a yw'r nifer hwnnw'n sylweddol; (b) y modd y defnyddir y gwasanaeth; (c) a yw'r gwasanaeth yn gallu gweithredu fel RTSS, gan gynnwys unrhyw addasiadau angenrheidiol; ac (d) unrhyw faterion eraill yr ydym yn ystyried sy'n debygol o effeithio ar y materion hyn.⁶¹
- 4.5 Dim ond os ydynt o'r farn ei fod yn cael ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl yn y DU y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi TSS unigol.⁶²
- 4.6 Fel y nodir ym mharagraff A1.25 **Atodiad 1**, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol baratoi disgrifiad o'r TSS y mae'n credu y dylid ei ddynodi, neu gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain.⁶³

⁵⁷ Adran 362AF (1) y Ddeddf.

⁵⁸ Rhaid i ddarparwyr TSS sy'n bodloni'r disgrifiad hysbysu Ofcom o dan adran 362AH y Ddeddf. Fodd bynnag, nid yw dynodi'n dibynnu ar hysbysu – bydd TSS yn cael ei ddynodi cyn gynted ag y bydd yn bodloni'r disgrifiad.

⁵⁹ Efallai y byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ein liwt ein hunain, neu efallai y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i ni baratoi un, ac os felly rhaid i ni wneud hynny. Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am gyngor Ofcom, gall roi disgrifiad penodol i ni o'r TSS sydd i'w ddynodi (adran 362AG(6) y Ddeddf).

⁶⁰ Adran 362AG (1) y Ddeddf.

⁶¹ Adran 362AG (4) y Ddeddf.

⁶² Adran 362AF (2) y Ddeddf.

⁶³ Adran 362AG (1) y Ddeddf.

Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i ni baratoi adroddiad ar ba TSS sy'n debygol o fodloni'r disgrifiad ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r asesiad hwn yn ein barn ni.⁶⁴

- 4.7 Fel y nodir yn y Ddeddf, gellir fframio rheoliadau dynodi drwy ddisgrifiad, yn benodol, mewn perthynas â'r canlynol: (a) mae TSS yn cael ei ddefnyddio, neu'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd benodol, gan nifer penodol o bobl yn y DU; (b) y dyddiad y bydd TSS ar gael gyntaf; neu (c) y swyddogaethau y mae TSS yn gallu (neu mae'n bosibl iddo allu) eu cyflawni.⁶⁵
- 4.8 Mae'r is-adrannau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am yr egwyddorion a'r dulliau y bwriadwn eu defnyddio wrth asesu'r materion uchod ar gyfer dynodiad unigol a dynodiad drwy ddisgrifiad.

Nifer y defnyddwyr yn y DU

- 4.9 Rydym yn cynnig asesu nifer y bobl sy'n defnyddio TSS yn y DU wrth gynhyrchu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddynodiadau unigol, ac mewn achosion lle mae nifer y defnyddwyr yn rhan o ddynodiad posibl drwy ddisgrifiad yr ydym yn adrodd arno.⁶⁶
- 4.10 Mae pobl yn gwylio teledu mewn gwahanol ffyrdd. Mewn rhai cartrefi, mae un set deledu'n cael ei rhannu ymysg nifer o aelodau'r teulu, ac mewn eraill, mae nifer o setiau teledu a dyfeisiau ffrydio yn cael eu defnyddio i wahanol raddau. Rydym yn cydnabod y byddem yn seilio ein hadroddiad yn ddelfrydol ar niferoedd defnyddwyr unigol, er mwyn sicrhau bod ein hasesiad o fanteision i'r gynulleidfa o ganlyniad i argymell dynodi TSS penodol mor gywir â phosibl. Fodd bynnag, mae amrywiadau o ran defnydd yn golygu nad yw'n hawdd mesur yn union nifer y bobl sy'n defnyddio TSS penodol, ac ar hyn o bryd nid ydym yn ymwybodol o ffynhonnell ddata ddibynadwy ar gyfer defnydd unigol.
- 4.11 Serch hynny, rydym yn ymwybodol o sawl dull o fesur defnydd o TSS sy'n dibynnu ar brocsi i asesu niferoedd defnyddwyr. O ystyried y cyfyngiadau presennol ar fesur defnydd gwirioneddol, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol defnyddio procsi sy'n cynnwys data ar ystod eang o TSS ar hyn o bryd ac sy'n darparu'r sail fwyaf gwrthrychol a dibynadwy ar gyfer mesur niferoedd defnyddwyr. Mae trwch y data hwn yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn trin darparwyr TSS yn deg.
- 4.12 Ystyriaeth bwysig wrth benderfynu pa ddull i'w fabwysiadu ar gyfer asesu niferoedd defnyddwyr yw i ba raddau y mae data ar gael ar gyfer yr ystod eang o TSS sy'n gymwys i'w dynodi. Er mwyn sicrhau triniaeth deg, byddai'r set ddata a ddefnyddiwn yn ddelfrydol yn cynnwys data ar bob TSS, a gesglir yn unol â methodoleg gyson. Er bod hwn yn un o'r materion rydym yn cynnig eu hystyried wrth benderfynu pa ddull a data i'w defnyddio i asesu niferoedd defnyddwyr, rydym yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau lle rydym yn credu ei bod yn briodol cyfeirio at setiau data gwahanol er mwyn asesu niferoedd defnyddwyr pob TSS perthnasol.
- 4.13 Ym mhob achos, byddem yn gwneud yn siŵr ein bod yn defnyddio methodoleg gyson i asesu nifer y defnyddwyr er mwyn sicrhau ein bod yn trin darparwyr TSS yn deg.

Cynnig

⁶⁴ Adran 362AG (5) y Ddeddf.

⁶⁵ Adran 362AF (3) y Ddeddf.

⁶⁶ Adran 362AG(4)(a) y Ddeddf.

- 4.14 Rydym yn cynnig defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau canlynol wrth asesu nifer y defnyddwyr TSS yn y DU:
- Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio TSS.
 - Gallwn ddefnyddio procsi ar gyfer niferoedd defnyddwyr os ydym o'r farn na ellir mesur niferoedd defnyddwyr unigol yn ddibynadwy.
 - Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob TSS i sicrhau triniaeth deg.
- 4.15 Mae'r egwyddorion a'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad Egwyddorion a Dulliau drafft yn **Atodiad 1** ym mharagraff A1.16 mewn perthynas ag argymhellion ar ddynodiad unigol, ac ym mharagraff A1.28 pan fo disgrifiad o ddynodiad yn cyfeirio at niferoedd defnyddwyr.

Cwestiwn Ymgynghori 1

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu nifer y defnyddwyr TSS yn y DU?

Nifer sylweddol o ddefnyddwyr

- 4.16 Wrth wneud argymhellion ar ddynodiad unigol, rhaid i Ofcom asesu a yw nifer y defnyddwyr TSS yn sylweddol cyn argymhell ei ddynodi.⁶⁷
- 4.17 Nod y drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd yw sicrhau'r manteision gorau posibl i gynulleidfaoedd drwy sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael i'r "mwyafrif helaeth o'r boblogaeth."⁶⁸ Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu amrywiaeth o fanteision i gynulleidfaoedd yn y DU, gan gynnwys deunydd sy'n werthfawr yn gymdeithasol sy'n gallu addysgu gwylwyr a hysbysu trafodaethau democrataidd.⁶⁹ Wrth i bobl wylio mwy o deledu ar-lein, mae gwneud cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd cael gafael arno a'i ddarganfod ar TSS yn hanfodol er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Pan fyddwn yn ystyried beth yw nifer 'sylweddol' o ddefnyddwyr, rydym o'r farn y byddem yn ceisio sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn y DU.
- 4.18 Fodd bynnag, rhaid i unrhyw drothwy rydym yn ei argymhell fod yn gymesur. Rydym yn cydnabod y bydd dynodi TSS fel RTSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr y gwasanaethau hynny. Bydd darparwyr RTSS yn ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol, gan gynnwys cario, gwneud PIDS a'u cynnwys yn amlwg a hygyrch, a chydymffurfio ag amcanion penodol wrth gynnal trafodaethau masnachol gyda'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y mae eu IPS wedi'u dynodi. Efallai y bydd darparwyr RTSS hefyd yn elwa o'r rhwymedigaeth ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynnig eu DIPS.
- 4.19 Ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gall dynodi TSS arwain at fanteision o ran argaeledd ac amlygrwydd cynyddol eu DIPS. Fodd bynnag, gall hefyd osod

⁶⁷Adran 362AG(4)(a) y Ddeddf.

⁶⁸Deddf Cyfryngau 2024, [Nodyn Esboniadol:Cefndir Polisi](#).

⁶⁹Ofcom, 2024, [Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus: cylch gorchwyl](#); Ofcom, 2021 [Y Sgrin Fach:Trafodaeth Fawr. Argymhellion i Lywodraeth y DU ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus](#).

rhwymedigaethau ychwanegol: po fwyaf y nifer o RTSS, y mwyaf o ddarparwyr y bydd yn rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynnig eu DIPS iddynt. Ar gyfer TSS sydd â niferoedd cymharol isel o ddefnyddwyr, gallai dynodiad RTSS olygu nad oes cyfiawnhad dros effaith y rhwymedigaethau rheoleiddio ar gyfer darparwyr RTSS a darparwyr DIPS os mai dim ond ychydig o fanteision i'r gynulleidfa sy'n deillio o'r dynodiad. Felly, rydym yn cynnig y byddem yn taro cydbwysedd priodol rhwng y manteision i'r gynulleidfa ac effaith y rhwymedigaethau rheoleiddio sy'n deillio o'r dynodiad.

- 4.20 Rydym yn cydnabod bod yr hyn sy'n nifer 'sylweddol' o ddefnyddwyr yn dibynnu ar y cyddestun ac y gallai newid dros amser oherwydd amodau'r farchnad, fel cwmni newydd yn newid deinameg y farchnad ac yn lleihau cyfran y farchnad i'w gystadleuwyr. O'r herwydd, gallai'r hyn rydym yn ei ystyried yn nifer sylweddol o ddefnyddwyr ar un adeg newid yn y dyfodol. Rydym yn cynnig y byddai ein hasesiad o 'sylweddol' yn ystyried hyn wrth i ni baratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol yn y dyfodol.
- 4.21 Yn gyffredinol, byddem yn argymhell dynodi TSS ar ba lefel bynnag sy'n cael ei hystyried yn nifer sylweddol o ddefnyddwyr, neu'n uwch na hynny. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pam y byddem yn ystyried ei bod yn briodol peidio ag argymhell dynodi TSS sy'n cyrraedd y trothwy. Er enghraifft, efallai na fyddem yn argymhell dynodi TSS o'r fath os yw tystiolaeth yn awgrymu bod nifer ei ddefnyddwyr yn gostwng ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl ei ddynodi. Byddai dynodiad mewn achos o'r fath yn debygol o arwain at fanteision cyfyngedig i'r gynulleidfa ac ni fyddai hynny er budd sefydlogrwydd rheoleiddiol.
- 4.22 Yn ein hadroddiad, byddem yn egluro pam ein bod yn credu ei bod yn briodol dynodi TSS sy'n bodloni'r trothwy sylweddol. Byddem hefyd yn egluro pam ein bod yn credu ei bod yn briodol peidio â dynodi TSS o'r fath.

Cynnig

- 4.23 Rydym yn cynnig defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau canlynol wrth ystyried yr hyn sy'n nifer sylweddol o ddefnyddwyr TSS yn y DU:
- Wrth osod y trothwy hwn, ein hamcan polisi fydd sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang.
 - Byddwn yn ystyried pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. O'r herwydd, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion blaenorol, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddir yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.
 - Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn ceisio sicrhau bod ein dynodiadau a argymhellir o fudd i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, gan gydnabod y bydd dynodi RTSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddiol ar y darparwyr RTSS ac ar ddarparwyr DIPS, ond y gallant hefyd greu manteision i'r naill a'r llall o ran sicrhau argaeledd ac amlygrwydd DIPS a'u rhaglenni.
- 4.24 Mae'r egwyddorion a'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad Egwyddorion a Dulliau drafft yn **Atodiad 1** ym mharagraff A1.17. Ym mharagraff A1.18 rydym yn egluro, er y byddem, yn gyffredinol, yn argymhell dynodi TSS ar y trothwy neu'n uwch, y gallem, mewn rhai amgylchiadau, ystyried ei bod yn briodol peidio â gwneud hynny. Yn y naill achos neu'r llall, byddem yn egluro pam ein bod wedi defnyddio dull penodol.

Cwestiwn Ymgynghori 2

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu a yw nifer y defnyddwyr TSS yn y DU yn ddigonol?

Dull gweithredu posibl ar gyfer ein hadroddiad cyntaf

Ar gyfer ein hadroddiad cyntaf yn nodi ein hargymhellion ar ddynodi TSS, efallai y byddwn yn ystyried **'nifer y dyfeisiau TSS sydd wedi'u gosod ar ddyfeisiau ITE yng nghartrefi'r DU' fel procsi addas posibl ar gyfer 'nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y DU sy'n defnyddio TSS'** ar gyfer y ddau bŵer dynodi. Y rheswm am hyn yw bod data ar werthiannau a chludo ITE ar hyn o bryd, a'r TSS sydd wedi'i osod arnynt, ar gael yn rhwydd a gellir eu casglu gan ddefnyddio methodoleg gadarn.⁷⁰

Mae ffyrdd eraill o fesur nifer y defnyddwyr rydym wedi'u nodi yn seiliedig yn gyffredinol ar ddata arolygon ac olrhain defnyddwyr. Ein barn ar hyn o bryd yw bod arolygon defnyddwyr yn debygol o fod yn amcangyfrifon llai priodol ar gyfer defnydd gan eu bod fel arfer yn dibynnu ar gof cyfranogwr yn hytrach na defnydd gwirioneddol. Mae arolygon o'r fath hefyd yn mesur defnydd o ddyfeisiau yn unig yn hytrach na defnydd o TSS, gan fod pobl yn tueddu i fod yn llai ymwybodol o'r llwyfan meddalwedd na'r ddyfais y mae'n gweithredu arni. Fel arall, gall data tracio defnyddwyr hefyd fesur yr amser mae pobl yn ei dreulio ar bob TSS, ond nid ydym yn ymwybodol o unrhyw fesurau cyson ar draws y diwydiant o ran yr amser mae pobl yn ei dreulio'n gwyllo teledu ar-lein gan ddefnyddio'r holl ddyfeisiau TSS a dyfeisiau cysylltiedig gwahanol sydd ar gael ar y farchnad.

Yn seiliedig ar y procsi posibl hwn, mae sawl dull posibl ar gyfer gosod trothwy sylweddol ar gyfer nifer y defnyddwyr.

Rydym o'r farn y gallai defnyddio nifer absoliwt o ddefnyddwyr TSS yn y DU fod yn ddull priodol. Mae hynny'n golygu y gallem argymhell dynodi TSS gyda dros, er enghraifft, 'X miliwn' o unedau ITE yn gweithredu gwasanaeth penodol. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, byddai'r dull hwn yn wrthrychol ac yn dryloyw gan y dylai data ar nifer absoliwt y TSS a ddefnyddir gan ITE fod ar gael yn rhwydd.

Rydym hefyd wedi ystyried dulliau eraill, gan gynnwys defnyddio trothwy cyfran y farchnad, neu argymhell dynodi nifer penodol o'r darparwyr TSS mwyaf (er enghraifft y pum darparwr TSS sydd â'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr).

Yn ein barn ni, mae'r dulliau hyn yn llai priodol na nifer absoliwt oherwydd byddai angen gwybodaeth am gyfanswm maint y farchnad a maint cymharol pob TSS. Efallai na fydd data o'r fath ar gael i'r cyhoedd. Hefyd, gall fod yn anodd casglu'r data mewn ffordd gyson gan fod darparwyr TSS yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a gallant amcangyfrif maint y farchnad a chyfrannau cysylltiedig o'r farchnad mewn gwahanol ffyrdd. Ar ben hynny, gall maint y farchnad a chyfran cystadleuwyr unigol o'r farchnad newid yn gyflym, felly mae'r dulliau hyn yn llai tebygol

⁷⁰Mae data cludo yn olrhain symudiad cynhyrchion o warysau i ganolfannau adwerthu a dosbarthu ac yn y pen draw i'r cwsmer.

o fod mor addas ar gyfer y dyfodol a gallai dibynnu arnynt greu ansicrwydd i'r diwydiant.

Cwestiwn Atodol 1: Rydym yn croesawu safbwyntiau ar y defnydd posibl hwn o 'nifer y TSS sydd wedi'u gosod ar ddyfeisiau ITE yng nghartrefi'r DU' fel procsi, ac ar bosibilrwydd defnyddio nifer absoliwt o ddefnyddwyr yn y DU wrth osod trothwy ar gyfer defnydd sylweddol yn ein hadroddiad cyntaf sy'n nodi ein hargymhellion ar ddynodi TSS. Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn.

Dull defnyddio TSS

- 4.25 Rhaid i Ofcom ystyried y ffordd y defnyddir TSS wrth wneud argymhellion ar ddynodiad unigol, a lle mae disgrifiad o ddynodiad yn cyfeirio at ddull defnyddio.⁷¹
- 4.26 Rydym yn cydnabod y gall pobl fod yn berchen ar ddyfeisiau gwahanol i gael mynediad at IPS ac felly efallai y byddant yn defnyddio sawl TSS, ond nid ydynt yn eu defnyddio'n gyfartal ac efallai na fyddant yn defnyddio rhai ohonynt o gwbl. Felly, gallai ystyried TSS nad yw'n cael ei ddefnyddio neu nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml arwain at orddatgan nifer y defnyddwyr.
- 4.27 Er mwyn sicrhau ein bod yn seilio ein hargymhellion ar dystiolaeth briodol ac i daro'r cydbwysedd cywir rhwng manteision a chostau dynodi ar gyfer TSS a PSBs, rydym o'r farn y byddai'n briodol asesu'r mater hwn yn y rhan fwyaf o achosion ar sail defnydd *gweithredol* o TSS.
- 4.28 Er ein bod yn cydnabod y gallai fod cyfyngiadau i fesur defnydd gweithredol mewn achosion unigol, byddem yn ystyried y data sydd ar gael ac efallai y byddwn yn dibynnu ar amcangyfrifon a/neu waith modelu os yw hynny'n briodol.⁷² Os yw dulliau gwahanol o asesu'r defnydd o TSS ar wahanol fathau o ITE yn fwy addas, byddem yn ceisio defnyddio'r dull mwyaf priodol.

Cynnig

- 4.29 Rydym yn cynnig defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau canlynol wrth asesu sut caiff TSS ei ddefnyddio:
- Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r TSS yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Byddwn yn ystyried y data neu'r amcangyfrifon sydd ar gael ynghylch pa mor aml y mae defnyddwyr yn cael mynediad at TSS penodol, yn ogystal â nifer cyffredinol y defnyddwyr.
 - Os yw dulliau gwahanol o asesu'r defnydd o TSS ar wahanol fathau o ITE yn fwy addas, byddem yn ceisio defnyddio'r dull mwyaf priodol.

⁷¹ Adran 362AG(4)(b) a (5)(a) y Ddeddf.

⁷² Gall yr Ysgrifennydd Gwladol newid yr offer sydd i'w drin fel ITE drwy ddiwygio'r rheoliadau ITE presennol neu lunio rhai newydd. Felly, o ystyried natur amrywiol y dyfeisiau y gall pobl wylio'r teledu arnynt, rydym yn cydnabod efallai na fydd yn briodol asesu defnydd yn yr un ffordd ar bob math o ITE. Felly, efallai y byddwn yn defnyddio dull gwahanol ar gyfer gwahanol ITE.

- 4.30 Mae'r egwyddorion a'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad Egwyddorion a Dulliau drafft yn **Atodiad 1** ym mharagraffau A1.19, A1.20, ac A1.28.

Cwestiwn Ymgynghori 3

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu sut caiff TSS ei ddefnyddio?

Dull gweithredu posibl ar gyfer ein hadroddiad cyntaf

Mae gwahanol ffyrdd o asesu'r dull o ddefnyddio TSS, gan gynnwys amlder a hyd y defnydd.

Fel sail i'n hadroddiad cyntaf sy'n nodi ein hargymhellion ar ddynodi TSS, rydym wedi comisiynu dadansoddiad gan gwmni ymchwil i'r farchnad, Omdia, i ystyried y data sydd ar gael sy'n berthnasol i ddefnyddio TSS yn y DU.

Mae Omdia yn mesur '**syfaen weithredol wedi'i gosod**' o TSS drwy ystyried nifer yr ITA sy'n cael eu cludo i'r DU, y TSS sydd wedi'i osod ar yr ITE hynny, a modelu ystadegol ac ymchwil defnyddwyr i amcangyfrif y rheini sy'n cael eu defnyddio'n weithredol. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r holl TSS gyda dull cyson ac mae'n cael ei gasglu'n rheolaidd.

Rydyn ni'n bwriadu **defnyddio'r mesur hwn fel amcangyfrif posibl o'r defnydd gweithredol o TSS** yn ein hadroddiad cyntaf.

Cwestiwn Atodol 2: Rydym yn croesawu safbwyntiau ar y dull posibl hwn o asesu'r dull o ddefnyddio TSS ar gyfer ein hadroddiad cyntaf sy'n cynnwys ein hargymhellion ar ddynodi TSS. Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn.

Swyddogaeth dechnegol TSS

- 4.31 Wrth baratoi adroddiad sy'n argymhell dynodiad unigol, rhaid i Ofcom "asesu a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS," neu "p'un a oes modd ei wneud i allu gweithredu felly."⁷³ Yn yr un modd, pan wneir dynodiad drwy ddisgrifiad, caiff y disgrifiad gyfeirio at "y swyddogaethau y mae TSS yn gallu, neu mae'n bosibl iddo allu, eu cyflawni."⁷⁴

⁷³ Adran 362AG(4)(c) y Ddeddf.

⁷⁴ Adran 362AF(3)(c) y Ddeddf.

- 4.32 Bydd yn rhaid i ddarparwyr RTSS gydymffurfio â'r dyletswyddau canlynol sy'n ymwneud â swyddogaethau'r gwasanaeth: darparu DIPS ar y RTSS;⁷⁵ rhoi amlygrwydd priodol i DIPS a'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus;⁷⁶ a chynnwys nodweddion sy'n galluogi hygyrchedd i bobl anabl.⁷⁷
- 4.33 Felly, rydym yn cynnig y byddem yn gyffredinol yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, os yw'n dechnegol abl i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. O ganlyniad, os gall TSS gario DIPS, rhoi amlygrwydd i IPS a chynnwys, a chynnwys nodweddion hygyrchedd – yna byddem yn ystyried y gallai weithredu fel RTSS.
- 4.34 Fel y nodir yn Adran 3, rydym o'r farn, at ddibenion dynodi, y dylid trin gwahanol fersiynau o TSS fel un gwasanaeth ar draws yr holl ddyfeisiau sy'n ei gario.⁷⁸ Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod cyflymder chwim newid technolegol yn golygu bod caledwedd – a'r TSS cysylltiedig sy'n rhedeg arno – yn gallu dyddio. Er enghraifft, yn achos setiau teledu clyfar, mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael a'r ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dangos bod defnyddwyr yn newid eu setiau teledu bob saith i ddeng mlynedd ar gyfartaledd.⁷⁹ Yn y cyfamser, bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr TSS yn darparu diweddariadau i swyddogaeth meddalwedd am flwyddyn neu ddwy ar ôl lansio ar y farchnad, a diweddariadau diogelwch am tua phum mlynedd.⁸⁰
- 4.35 Mae hyn yn golygu y gall setiau teledu clyfar a dyfeisiau ffrydio o'r un cyflenwr weithredu gyda fersiynau hyn o TSS penodol, oherwydd, er enghraifft, cyfyngiadau technegol penodol neu oherwydd bod y gwneuthurwr wedi rhyddhau dyfeisiau newydd gyda fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r TSS.
- 4.36 Gall cyfyngiadau caledwedd atal y TSS rhag cael ei ddiweddarau y tu hwnt i bwynt penodol. Wrth i ddyfeisiau wella, bydd cwmnïau'n ceisio diweddarau eu TSS i fanteisio ar welliannau mewn technoleg dyfeisiau. Fel arfer, mae fersiynau newydd yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn ar gyfer modelau teledu clyfar newydd, er efallai y bydd rhai'n cael eu diweddarau'n llai rheolaidd. Mae dyfeisiau ffrydio fel blychau pen-set a ffyn ffrydio yn wynebu cyfyngiadau tebyg.
- 4.37 Mae hyn yn golygu bod pobl yn defnyddio dyfeisiau hyn nad yw fersiwn benodol o TSS yn cael ei diweddarau a'i chefnogi arnynt mwyach, naill ai oherwydd nad yw'r caledwedd yn dechnegol yn gallu cefnogi fersiwn ddiweddaraf y TSS, neu oherwydd bod y darparwr TSS wedi gwneud penderfyniad masnachol i beidio â'i gefnogi mwyach.⁸¹

⁷⁵ Adran 362AK y Ddeddf. Os ydym yn paratoi adroddiad cyn i unrhyw IPS gael ei ddynodi, byddwn yn ystyried dewis arall priodol, a allai gynnwys asesu a yw'r TSS yn gallu cario IPS y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

⁷⁶ Adran 362AO (1) i (3) y Ddeddf.

⁷⁷ Adran 362AO (4) y Ddeddf.

⁷⁸ Gweler adran 3, paragraffau 3.19-3.20 y ddogfen hon.

⁷⁹ Gweler er enghraifft [Future of TV Distribution](#), adroddiad gan Brifysgol Caerwysg gyda Phrifysgol Leeds, MTM, 3 Reasons a Real Wireless, a gyhoeddwyd i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 7 Hydref 2024. TechUK, [DMB0061 Written evidence submitted by TechUK](#), 2023.

⁸⁰ Mae pob cwmni meddalwedd a chaledwedd yn aml yn nodi manylebau gwahanol fersiynau eu llwyfannau meddalwedd a dyfeisiau cysylltiedig ar eu gwefannau. Gweler, er enghraifft: Samsung, 2024, [Samsung Developer: general specifications](#); Amazon, 2024, [Fire OS Overview](#); a Sky, 2024, [Software or build versions and Sky boxes](#). Gellir hefyd cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a diweddariadau diogelwch yn y dogfennau gwarant ar gyfer eu dyfeisiau a'u gwasanaethau perthnasol.

⁸¹ Gweler, er enghraifft: Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin, [Draft Media Bill: final report](#), 2023; TechUK, 2023, [DMB0061 Written evidence submitted by techUK](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

- 4.38 Gall darparwyr cynnwys hefyd wynebu materion tebyg gan eu bod yn aml yn diweddarau eu IPS i ymgorffori nodweddion a swyddogaethau newydd. Mewn rhai achosion, gall diweddariadau o'r fath (er enghraifft, nodweddion diogelwch wedi'u huwchraddio) fod yn gostus neu'n amhosibl eu cyflwyno ar gyfer y fersiynau o'u IPS sydd ar gael ar ddyfeisiau hŷn. Gall hyn achosi i'r IPS ddod yn anghydnaws â'r fersiynau TSS hŷn hynny, ac mewn rhai achosion, efallai na fydd defnyddwyr yn gallu cael mynediad at yr IPS mwyach.⁸²
- 4.39 Yn ein hadroddiad, rydym yn cynnig ystyried goblygiadau cynnwys fersiynau hŷn o TSS mewn dynodiad. Er enghraifft, mae'r Ddeddf yn pennu y gall disgrifiad o ddynodiad gyfeirio at y dyddiad y mae TSS ar gael i ddefnyddwyr yn y DU am y tro cyntaf. Gallai pennu dyddiad o'r fath drwy gyfeirio at y cyfnod cyfartalog pan fydd defnyddiwr yn newid ITE yn y DU arwain at nifer uchel o bobl yn elwa o'r drefn. Fodd bynnag, gall hefyd roi baich ar ddarparwyr TSS a DIPS drwy fynnu eu bod yn cynnal fersiynau o'u gwasanaethau na fyddent fel arall yn eu cynnal, er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf.
- 4.40 Fel arall, gall pennu'r dyddiad drwy gyfeirio at yr amser y mae darparwyr TSS ac IPS yn gyffredinol yn cynnal fersiynau gwahanol o'u gwasanaethau eithrio defnyddwyr fersiynau hŷn o TSS rhag manteisio ar fuddion y drefn.
- 4.41 Er mwyn hysbysu unrhyw argymhelliad yn y maes hwn, byddem yn debygol o ystyried y materion canlynol:
- a) Data ar ddefnyddio fersiynau hŷn TSS sydd ar gael yn y farchnad;
 - b) Arferion y diwydiant o ran cefnogi fersiynau hŷn o TSS; ac
 - c) Arferion y diwydiant o ran sicrhau bod IPS yn gydnaws â fersiynau hŷn o TSS.

Cynnig

- 4.42 Rydym yn cynnig yr egwyddorion a'r dulliau canlynol ar gyfer asesu swyddogaethau TSS:
- a) Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel RTSS os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol:
 - i) Mae'n gallu cario DIPS, fel y'i diffinnir yn adran 362AA(1) y Ddeddf;
 - ii) Mae'n gallu cyflwyno IPS a rhaglenni gyda lefelau gwahanol o amlygrwydd; a
 - iii) Mae'n gallu cynnwys nodweddion i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ag anableddau.
 - b) Wrth ystyried a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, byddwn yn ystyried ei alluoedd presennol ac unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen er mwyn i'r TSS gyflawni'r swyddogaethau uchod.
- 4.43 Mae'r egwyddorion a'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad Egwyddorion a Dulliau drafft yn **Atodiad 1** ym mharagraffau A1.21, ac A1.22. Ym mharagraff A1.30 rydym yn egluro y byddwn yn defnyddio'r egwyddorion a'r dulliau hyn wrth roi cyngor ar ddisgrifiad sy'n cyfeirio at y swyddogaethau y mae TSS yn gallu, neu mae'n bosibl iddo allu, eu cyflawni.

⁸²Gweler, er enghraifft: Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin, 2023, [Draft Media Bill: final report](#); Senedd y DU, 2023, [Media Bill: written evidence submitted by Paramount to the Media Bill Public Bill Committee](#) [cyrchwyd: 09 Rhagfyr 2024].

Cwestiwn Ymgynghori 4

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig i roi cyngor ar y swyddogaethau y mae TSS yn gallu, neu mae'n bosibl iddo allu, eu cyflawni?

Cwestiwn Atodol 3

Rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth ategol ar gyfer ein hadroddiad cyntaf sy'n nodi ein hargymhellion ar ddynodi TSS ar:

- Nifer y bobl sy'n defnyddio fersiynau hŷn o TSS nad ydynt yn cael eu cefnogi gan eu darparwr mwyach;
- Pan fydd darparwyr TSS yn rhyddhau fersiwn newydd o'u gwasanaeth, am ba hyd maen nhw fel arfer yn ei gefnogi?
- Pan fydd darparwyr IPS yn rhyddhau fersiwn newydd o'u gwasanaeth, am ba hyd maen nhw fel arfer yn ei gefnogi?
- Y cyfyngiadau technegol a/neu'r costau sy'n gysylltiedig â chefnogi fersiynau hŷn o TSS a fersiynau hŷn o IPS sydd ar gael o hyd yn y farchnad.

Materion perthnasol ychwanegol

- 4.44 Yn ein hadroddiad, rhaid i ni hefyd gynnwys ein hasesiad o unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r materion uchod yn ein barn ni.⁸³

Cynnig

- 4.45 Rydym yn cynnig ystyried fesul achos a oes unrhyw faterion ychwanegol y byddai'n briodol i ni eu hystyried, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol. Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd y gellir cael gafael ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau pan fyddwn yn paratoi adroddiad.
- 4.46 Mae'r egwyddorion a'r dulliau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad Egwyddorion a Dulliau drafft yn **Atodiad 1** ym mharagraffau A1.23-A1.24, ac A1.31.
- 4.47 Yn olaf, rydym hefyd yn cynnig yr egwyddorion cyffredinol canlynol ym mharagraffau A1.32 i A1.35 y Datganiad o Egwyddorion a Dulliau yn **Atodiad 1**:
- a) Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad a sut mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau yn y datganiad.
 - b) Fodd bynnag, efallai y byddwn yn credu ei bod yn briodol gwyro oddi wrth yr egwyddorion a'r dulliau yn y datganiad. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn egluro pam ein bod wedi dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau.

⁸³ Adran 362 AG(4)(d) o'r Ddeddf.

- c) Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth⁸⁴ i hysbysu ein hadroddiad.
- d) Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.⁸⁵

Cwestiwn Ymgynghori 5

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu unrhyw faterion ychwanegol?

⁸⁴Adran 362AS y Ddeddf.

⁸⁵Adran 362AG (8) y Ddeddf.

A1. Datganiad drafft o egwyddorion a dulliau

Gwybodaeth am y ddogfen hon

A1.1 Y ddogfen hon yw'r Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau i'w defnyddio gan Ofcom wrth baratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch dynodi gwasanaethau dethol teledu o dan adran 362AF(1)(a) neu (b) yn Rhan 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf).⁸⁶ Mae adran 362AG(9) y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom lunio'r datganiad hwn.

Y fframwaith cyfreithiol

- A1.2 Nod y drefn amlygrwydd yn Rhan 3A y Ddeddf yw sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch ar TSS sy'n cael ei ddefnyddio'n eang. I gyflawni hyn, rhaid i ddarparwyr TSS dynodedig (y cyfeirir atynt fel TSS neu RTSS sy'n cael ei reoleiddio) sicrhau bod gwasanaethau rhaglenni rhyngwyd dynodedig (IPS neu DIPS dynodedig)⁸⁷ y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB),⁸⁸ a'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael ac yn amlwg ar y gwasanaeth.
- A1.3 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddynodi TSS naill ai drwy: (a) enwi'r TSS unigol sydd i'w ddynodi o dan adran 362AF(1)(a) (dynodi unigol); neu (b) pennu disgrifiad o'r TSS sydd i'w ddynodi o dan adran 362AF(1)(b), ac os felly bydd TSS sy'n bodloni'r disgrifiad yn cael ei ddynodi (dynodi drwy ddisgrifiad).⁸⁹
- A1.4 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom cyn gwneud neu ddiwygio rheoliadau dynodi.⁹⁰ Rhaid i'n hadroddiad nodi argymhellion ar sut y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bwerau gwneud rheoliadau.⁹¹ Efallai y byddwn yn penderfynu paratoi adroddiad o'r fath ar ein liwt ein hunain.⁹² Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ni baratoi adroddiad, ac os felly rhaid i ni wneud hynny cyn gynted ag sy'n ymarferol.⁹³
- A1.5 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn hysbysu'n hadroddiad i'r

⁸⁶ Cafodd Rhan 3A y Ddeddf ei mewnosod gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024.

⁸⁷ Mae "IPS" yn cael ei ddiffinio yn adran 362AA(10) a (11) o'r Ddeddf ac mae "DIPS" yn cael ei ddiffinio yn adran 362AA(1) o'r Ddeddf.

⁸⁸ Mae chwaraewr IPS y BBC yn cael ei ddynodi'n awtomatig. Mae gan Ofcom y pŵer i ddynodi IPS y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill: darparwyr gwasanaethau Channel 3 (ITV ar hyn o bryd ac STV), Channel 4, S4C, a Channel 5 (adran 362AA(2) y Ddeddf). Cyfeirir at chwaraewyr ar-alw dynodedig fel gwasanaethau rhaglenni rhyngwyd dynodedig neu DIPS. Bydd Ofcom yn ymgynghori ar ei ddatganiad ar y dulliau a ddefnyddir i ddynodi DIPS yn gynnar yn 2025 fel y nodir yn adran 2 y ddogfen ymgynghori hon.

⁸⁹ Bydd yn rhaid i ddarparwyr TSS y mae eu TSS yn wasanaeth neu'n dod yn wasanaeth dan y disgrifiad roi gwybod i Ofcom (adran 362AH y Ddeddf).

⁹⁰ Adran 362AG (2) y Ddeddf

⁹¹ Adran 362AF (4) y Ddeddf.

⁹² Adran 362AG (1) y Ddeddf.

⁹³ Adran 362AG(2) a (3) y Ddeddf.

Ysgrifennydd Gwladol.⁹⁴ Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Ofcom fynnu bod y sawl sy'n derbyn y cais yn cael neu'n cynhyrchu gwybodaeth.⁹⁵

- A1.6 Rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau y bydd yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Y ddogfen hon yw'r datganiad hwnnw. Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwn.⁹⁶
- A1.7 Mae fframwaith cyfreithiol manylach yn **Atodiad 3**.⁹⁷

Egwyddorion a dulliau ar gyfer paratoi ein hadroddiad ar ddynodi TSS sy'n cael ei reoleiddio (RTS)

Beth yw TSS?

- A1.8 Mae TSS yn wasanaeth, neu'n rhan ddatgysylltiol o wasanaeth, sydd:
- yn cael ei ddarparu drwy'r rhyngwrwd;
 - yn cael ei ddarparu mewn cysylltiad ag offer teledu rhyngwrwd (ITE);
 - yn cynnwys cyflwyno IPS; a
 - yn galluogi defnyddiwr i ddewis rhwng a chael mynediad at IPS neu raglenni a ddarperir gan yr IPS hynny, neu'r ddau.⁹⁸
- A1.9 Nid TSS yw'r ddyfais y mae IPS, neu raglenni'n cael eu defnyddio arni – ITE yw'r ddyfais. TSS yw'r gwasanaeth sy'n galluogi'r defnyddiwr i gyrchu'r IPS sydd ar gael a darganfod rhaglenni a ddarperir gan yr IPS hynny.
- A1.10 Wrth wneud argymhellion, bydd Ofcom yn cyfeirio at y diffiniad o ITE fel y nodir yn y rheoliadau diweddaraf a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 362AE(2) y Ddeddf.⁹⁹
- A1.11 Ar ddyddiad y datganiad hwn, y rheoliadau diweddaraf yw Rheoliadau Offer Teledu Rhyngwrwd 2024.¹⁰⁰ Mae'r rhain yn diffinio ITE fel:
- Setiau teledu clyfar; a
 - Dyfeisiau ffrydio, sy'n cynnwys ffyn ffrydio a blychau pen-set.

⁹⁴ Adran 362AS y Ddeddf.

⁹⁵ Adran 362AS(3) a (4) y Ddeddf.

⁹⁶ Adran 362AG(9) a (10) y Ddeddf.

⁹⁷ At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae Atodiad 3 yn gweithredu fel y fframwaith cyfreithiol ar gyfer y ddogfen ymgynghori a'r datganiad drafft hwn. Bydd y fframwaith cyfreithiol yn cael ei atodi i fersiwn derfynol y datganiad hwn pan gaiff ei gyhoeddi.

⁹⁸ Adran 362AE(1) a (2) y Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r diffiniad o "gwasanaeth dethol teledu" o dan adran 362AE(7) y Ddeddf. Bydd Ofcom yn defnyddio'r diffiniad sydd mewn grym adeg paratoi adroddiad.

⁹⁹ Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r diffiniad o "offer teledu rhyngwrwd" o dan adran 362AE(7) y Ddeddf. Bydd Ofcom yn defnyddio'r diffiniad sydd mewn grym adeg paratoi adroddiad.

¹⁰⁰ [The Internet Television Equipment Regulations 2024](#) (2024/1056).

Pwerau dynodi'r Ysgrifennydd Gwladol

- A1.12 Fel y nodir uchod, mae dau bŵer y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu defnyddio i ddynodi TSS yn RTSS: rheoliadau o dan adran 362AF(1)(a) (dynodi unigoln) neu reoliadau o dan adran 362AF(1)(b) (dynodi drwy ddisgrifiad).
- A1.13 Gan nad yw'r Ddeddf yn rhagnodi'r amgylchiadau lle dylid defnyddio'r pwerau, gallwn wneud argymhellion mewn perthynas â'r naill neu'r llall o'r pwerau neu'r ddau. Er mwyn sicrhau tryloywder, byddwn yn egluro pam rydym wedi argymhell pŵer dynodi penodol.

Egwyddorion a dulliau wrth baratoi adroddiad ar arfer y pŵer yn adran 362AF(1)(a) (dynodi unigol)

- A1.14 Mae adran 362AG(4)(a) i (d) yn nodi'r materion y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth baratoi adroddiad o dan adran 362AF(1)(a) (dynodi unigol):
- Nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio TSS ac a yw'r nifer hynny'n sylweddol;¹⁰¹
 - Y modd y defnyddir TSS;**
 - A yw'r TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, ac a oes modd iddo allu gwneud hynny; ac
 - Unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion uchod.
- A1.15 Rydym yn nodi isod yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu'r materion hyn.

(a) Nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac a yw hynny'n sylweddol

- A1.16 Er mwyn asesu'r mater hwn, bydd angen i Ofcom asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth. I gyflawni hyn, byddwn yn:
- Defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio gwasanaeth.
 - Gellir defnyddio procsi ar gyfer niferoedd defnyddwyr os ydym o'r farn na ellir mesur niferoedd defnyddwyr unigol yn ddibynadwy.
 - Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob TSS i sicrhau triniaeth deg.
- A1.17 Gan ddefnyddio'r mesur a ddatblygwyd yn unol â'r egwyddorion a'r dulliau ym mharagraff A1.16, byddwn yn gosod trothwy sy'n sylweddol yn ein barn ni:
- Wrth osod y trothwy hwn, ein hamcan fydd sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang.
 - Byddwn yn ystyried yn gyffredinol pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. O'r herwydd, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion blaenorol,

¹⁰¹Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod TSS yn cael ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl yn y DU er mwyn ei ddynodi'n benodol (adran 362AF(2) y Ddeddf).

byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddir yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.

- c) Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y dynodiadau rydym yn eu hargymell o fudd i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Byddwn yn ystyried y bydd dynodi RTSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddiol ar y darparwr RTSS ac ar ddarparwyr IPS dynodedig (DIPS), ond y gallant hefyd greu manteision i'r naill a'r llall o ran sicrhau argaeledd ac amlygrwydd DIPS a'u rhaglenni.

A1.18 Yn gyffredinol, byddwn yn argymell dynodi TSS ar lefel yr ydym yn ei hystyried sy'n nifer sylweddol o ddefnyddwyr, neu'n uwch na hynny. Fodd bynnag, o ystyried yr egwyddorion a'r dulliau eraill yn y datganiad hwn, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol peidio ag argymell dynodi TSS o'r fath. Er enghraifft, efallai na fyddem yn argymell dynodi TSS o'r fath os yw tystiolaeth yn awgrymu bod nifer ei ddefnyddwyr yn gostwng ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl ei ddynodi. Byddwn yn egluro pam rydym wedi argymell neu nad ydym wedi argymell dynodi TSS sydd ar y trothwy neu'n uwch na hynny.

(b) Y modd y mae'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan y personau hynny

A1.19 Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried i ba raddau mae'r TSS yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Gallwn ystyried y data neu'r amcangyfrifon sydd ar gael ynghylch pa mor aml y mae defnyddwyr yn cael mynediad at TSS penodol, yn ogystal â nifer cyffredinol y defnyddwyr.

A1.20 Os yw dulliau gwahanol o asesu'r defnydd o TSS ar wahanol fathau o ITE yn fwy addas, byddem yn ceisio defnyddio'r dull mwyaf priodol.

(c) A yw'r gwasanaeth hwnnw'n gallu gweithredu fel gwasanaeth dethol teledu wedi'i reoleiddio a'r addasiadau, os o gwbl, sydd eu hangen iddo allu gwneud hynny

A1.21 Yn gyffredinol, byddwn yn ystyried bod TSS yn gallu gweithredu fel RTSS os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- a) Mae'n gallu cario gwasanaethau rhaglenni rhyngwyd dynodedig, fel y'u diffinnir yn adran 362AA(1) y Ddeddf;¹⁰²
- b) Mae'n gallu cyflwyno IPS a rhaglenni gyda lefelau gwahanol o amlygrwydd; a
- c) Mae'n gallu cynnwys nodweddion i sicrhau ei fod yn hygyrch i bobl ag anableddau.

A1.22 Wrth ystyried a yw TSS yn gallu gweithredu fel RTSS, byddwn yn ystyried ei alluoedd presennol ac unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen er mwyn i'r TSS gyflawni'r swyddogaethau uchod.

(d) Unrhyw faterion mae Ofcom yn gredu sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt yn (a) i (d)

A1.23 Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.¹⁰³

¹⁰²Os ydym yn paratoi adroddiad cyn i unrhyw IPS gael ei ddynodi, byddwn yn ystyried dewis arall priodol, a allai gynnwys asesu a yw'r TSS yn gallu cario IPS y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

¹⁰³Mae ein dyletswyddau statudol perthnasol wedi'u nodi yn yr atodiad i'r datganiad hwn.

- A1.24 Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd y gellir cael gafael ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau pan fyddwn yn paratoi adroddiad.

Egwyddorion a dulliau wrth baratoi adroddiad ar arfer y pŵer yn adran 362AF(1)(b) (dynodi drwy ddisgrifiad)

- A1.25 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol baratoi disgrifiad o'r TSS y mae'n credu y dylai fod yn RTSS neu ofyn i Ofcom wneud hynny. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i Ofcom gynhyrchu adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ynghylch arfer y pŵer yn adran 362AF(1)(b).
- A1.26 Mae adran 362AG(5) yn nodi'r materion y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth baratoi adroddiad o dan adran 362AF(1)(b):
- Pa TSS sy'n debygol o ddod o fewn y disgrifiad dan sylw; ac
 - Unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r asesiad hwnnw.
- A1.27 Mae adran 362AF(3) yn datgan y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 362AF(1)(b) gyfeirio at:
- TSS sy'n cael ei ddefnyddio, neu'n cael ei ddefnyddio mewn modd a bennir yn y rheoliadau, gan ddim llai na nifer y cyhoedd yn y DU ag a bennir yn y rheoliadau;
 - Y dyddiad pan fydd TSS ar gael am y tro cyntaf i aelodau o'r cyhoedd yn y DU; a'r
 - Y swyddogaethau y gall TSS eu cyflawni, neu mae'n bosibl iddo allu eu cyflawni.

(a) Pa TSS sy'n debygol o ddod o fewn y disgrifiad o TSS dan sylw

- A1.28 Pan fydd y disgrifiad yn cyfeirio at y mater ym mharagraff A1.27a), bydd angen i Ofcom asesu nifer y cyhoedd yn y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y modd a nodir yn y rheoliadau. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn asesu defnydd gyda'r un egwyddorion a dulliau ag a nodir ym mharagraff A1.166; ac yn asesu dull defnyddio gyda'r un egwyddorion a dulliau ag a nodir ym mharagraffau A1.1919 a A1.200.
- A1.29 Os yw disgrifiad hefyd neu fel arall yn cyfeirio at y mater ym mharagraff A.1.27(b), byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i bennu'r TSS sy'n bodloni'r disgrifiad hwnnw.
- A1.30 Pan fydd disgrifiad hefyd neu fel arall yn cyfeirio at y mater yn A1.27c), byddwn yn ystyried a yw'n gallu gweithredu fel RTSS, gan gymhwysu'r egwyddorion a'r dulliau ym mharagraff A1.21 ac A1.22 ac asesu unrhyw swyddogaethau eraill y gellir eu pennu yn y disgrifiad.

(b) Unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r asesiad a ddisgrifir ym mharagraff (a)

- A1.31 Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar pa TSS sy'n debygol o ddisgwyl o fewn y disgrifiad, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.

Egwyddorion cyffredinol

- A1.32 Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad a sut mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn.

- A1.33 Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau i'r rhai a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn gwahanol egwyddorion a dulliau, byddwn yn egluro pam ein bod wedi gwneud hyn.
- A1.34 Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362AS y Ddeddf i gasglu tystiolaeth i lywio ein hadroddiad.
- A1.35 Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.¹⁰⁴

¹⁰⁴ Adran 362AG (8) y Ddeddf.

A2. Aseidiadau effaith

Aseu effaith ein cynigion

- A2.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi aseidiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Maen aseidiadau effaith yn ein helpu i ddeall y penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.¹⁰⁵
- A2.2 Mae'r Datganiad o Egwyddorion a Dulliau yn cael ei baratoi at ddibenion swyddogaeth gynghori lle bydd y penderfyniad ynghylch sut bydd yr argymhellion yn ein hadroddiad yn cael ei roi ar waith yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd cael egwyddorion clir a phriodol y byddwn yn seilio ein hadroddiad arnynt yn sicrhau y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wybodaeth lawn a phriodol i seilio ei benderfyniadau dynodi arni.
- A2.3 Mae'r aseidiad o effaith a gynhaliwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnwys yn Adran 4 lle rydym wedi ystyried effeithiau posibl yr egwyddorion a'r dulliau rydym yn bwriadu eu defnyddio wrth baratoi ein hadroddiad, yn ogystal ag effeithiau'r dulliau posibl y gallem eu defnyddio ar gyfer y materion y mae'r Ddeddf yn gofyn i ni eu hystyried yn ein hadroddiad.
- A2.4 Byddwn yn cynnal aseidiad effaith pellach wrth gynhyrchu adroddiad o argymhellion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol.

Aseu'r effaith ar gydraddoldeb

- A2.5 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf 2010¹⁰⁶. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.
- A2.6 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon¹⁰⁷. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisiâu am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.
- A2.7 Fel y nodir uchod, mae'r Datganiad o Egwyddorion a Dulliau yn cael ei baratoi mewn perthynas â swyddogaeth gynghori. Nid ydym yn disgwyl i'r egwyddorion a'r dulliau rydym yn eu cynnig gael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb. Un o ddibenion y drefn newydd yw mynnu bod nodweddion hygrychedd ar TSS yn cael eu dynodi, a bydd hyn o fudd i ddefnyddwyr y TSS hyn sydd ag anableddau.

¹⁰⁵ Ofcom, [Canllawiau Aseu Effaith](#), 2023.

¹⁰⁶ Y nodweddion gwarchoddedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

¹⁰⁷ Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

- A2.8 Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- A2.9 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.¹⁰⁸ I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.¹⁰⁹ Yn unol a hynn, rydym wedi ystyried effaith bosibl ein hadolygiad ar (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac (ii) trin y Gymraeg, heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- A2.10 Ystyriwn na fyddai'r egwyddorion a'r dulliau rydym wedi eu cynnig yn trin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg nac yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn disgwyl y bydd y drefn newydd o fudd i siaradwyr Cymraeg drwy sicrhau bod ganddynt fynediad at gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg. Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg wrth gynhyrchu ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

¹⁰⁸ Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

¹⁰⁹ Mae [safonau'r Gymraeg](#) y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

A3. Fframwaith Cyfreithiol

Y fframwaith cyfreithiol

- A3.1 Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer dynodi gwasanaethau dethol teledu o dan Ran 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024. Dim ond crynodeb o'r darpariaethau perthnasol yw'r Atodiad hwn. Nid yw'n disodli cyfeiriad at y statud.
- A3.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom hefyd yn berthnasol o ran cyflawni ei swyddogaethau, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.¹¹⁰ Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys pa mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; anghenion pobl ag anableddau.¹¹¹
- A3.3 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.¹¹²
- A3.4 Fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod, bydd yn rhaid i TSS sy'n cael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (TSS neu RTSS a reoleiddir) gydymffurfio ag amrywiol rwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â sicrhau bod gwasanaethau rhaglenni ar y rhyngwrwd (IPS)¹¹³ darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU sy'n cael eu dynodi gan Ofcom (IPS dynodedig neu DIPS) ar gael ac yn amlwg.¹¹⁴

¹¹⁰ Adran 3(1) y Ddeddf.

¹¹¹ Adran 3(4)(a), (d) ac (i) y Ddeddf.

¹¹² Adran 3(3) y Ddeddf.

¹¹³ Mae IPS yn gyfeiriad at (a) wasanaeth rhaglenni ar-alw lle mae'r defnyddiwr yn cael mynediad at y rhaglenni sy'n cael eu gwyllo gan ddefnyddiwr y gwasanaeth drwy'r rhyngwrwd; (b) gwasanaeth rhaglenni ar-alw y tu allan i'r DU lle mae'r rhaglenni sy'n cael eu gwyllo gan ddefnyddiwr y gwasanaeth yn cael eu cyrchu gan y defnyddiwr drwy'r rhyngwrwd; neu (c) gwasanaeth sy'n bodloni'r gofynion canlynol: (i) mai prif bwrpas y gwasanaeth yw darparu rhaglenni; (ii) bod y rhaglenni gaiff eu gwyllo gan ddefnyddiwr gwasanaeth yn cael eu cyrchu gan y defnyddiwr drwy'r rhyngwrwd; a (iii) bod y rhaglenni mae'n eu darparu i ddefnyddiwr gwasanaeth yn gynwysedig yn (1) y cyfryw wasanaeth rhaglenni ar-alw a ddisgrifir yn rhan (a) y troednodyn hwn neu wasanaeth rhaglenni ar-alw y tu allan i'r DU fel y'i disgrifir yn rhan (b) y troednodyn hwn; a (2) gwasanaeth arall sydd, neu ddau wasanaeth arall neu ragor y mae pob un yn, wasanaeth rhaglenni ar-alw o'r fath, wasanaeth rhaglenni ar-alw y tu allan i'r DU o'r fath, neu wasanaeth (ar wahân i'r mathau hynny o wasanaethau) sy'n cynnwys, neu ei brif bwrpas yw darparu, rhaglenni (adran 362AA(10) a (11) y Ddeddf).

¹¹⁴ DIPS yw (a) IPS sy'n cael ei ddarparu gan y BBC; (b) IPS sy'n cael ei ddarparu gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar wahân i'r BBC ac sydd wedi'i ddynodi gan Ofcom; neu (c) IPS sy'n cael ei ddarparu gan unigolyn sy'n gysylltiedig â ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ac sydd wedi'i ddynodi gan Ofcom (adran 362AA(1) y Ddeddf).

- A3.5 Mae gan bob PSB gylch gwaith unigol y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni.¹¹⁵ Mae'n ofynnol i'r BBC gyflawni ei genhadaeth er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.¹¹⁶ Cylch gwaith unigol gwasanaethau Channel 3, S4C a Channel 5 yw sicrhau bod amrywiaeth o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael.¹¹⁷ Cylch gwaith unigol S4C yw sicrhau bod ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael, gyda chyfran sylweddol ohonynt yn Gymraeg.¹¹⁸

Gwasanaethau dethol teledu

- A3.6 Cyfeirir at y gwasanaethau y gellir eu dynodi fel TSS. Mae'r Ddeddf yn diffinio TSS fel "gwasanaeth neu ran ddatgysylltiol o wasanaeth, a ddarperir drwy gyfrwng y rhyngwrwd ac mewn cysylltiad ag Offer Teledu Rhyngwrwd (ITE), sy'n cynnwys:
- cyflwyno'r IPS a gynhwysir yn y gwasanaeth neu adran ddatgysylltiol y gwasanaeth; a
 - chyfleuster sy'n galluogi'r defnyddiwr i wneud y canlynol: (i) dewis rhwng yr IPS neu'r rhaglenni hynny a ddarperir gan yr IPS hynny neu'r ddau; a (ii) cael mynediad i'r IPS neu'r rhaglen a ddewiswyd neu'r ddau.¹¹⁹
- A3.7 Fel y nodir yn Rheoliad 2 Rheoliadau ITE 2024, mae ITE yn golygu setiau teledu clyfar, blychau penset a dyfeisiau ffrydio.¹²⁰

Gwasanaethau dethol teledu a reoleiddir

- A3.8 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ddynodi TSS i gael ei reoleiddio ac felly'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau statudol a nodir yn y Ddeddf. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau sydd yn:
- dynodi TSS unigol (y cyfeiriwn ato fel 'dynodiad unigol'); neu
 - nodi disgrifiad o'r TSS sydd i'w ddynodi (yr ydym yn cyfeirio ato fel 'dynodiad drwy ddisgrifiad').¹²¹
- A3.9 Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi TSS drwy ddynodiad unigol oni bai ei fod yn credu ei fod yn cael ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o'r cyhoedd yn y DU.¹²²
- A3.10 Mewn rheoliadau sy'n dynodi drwy ddisgrifiad, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol lunio disgrifiad o'r TSS drwy gyfeirio at:

¹¹⁵Ar gyfer pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, dylai'r rhaglenni maen nhw'n cyflawni eu cylchoedd gwaith unigol gyda nhw allu cael eu hystyried at ddibenion asesu i ba raddau mae'r cylch gwaith teledu yn y DU yn cael ei gyflawni, a dylai fod yn gyfraniad digonol at gyflawni'r cylch gwaith teledu yn y DU (adran 264(4) y Ddeddf).

¹¹⁶ Paragraff 5 Y Siarter Brenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, Rhagfyr 2016.

¹¹⁷ Adrannau 265(2) a 265(3) y Ddeddf. Ar gyfer S4C rhaid i'r rhaglenni hyn yn benodol ddangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd; mae apelio at chwaeth a diddordebau cymdeithas sy'n amrywiol yn ddiwylliannol yn cynnwys llawer iawn o gynnwys addysgol; a gyda chymeriad unigryw.

¹¹⁸ Paragraff 3(2) Rhan 2 Atodlen 12 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹¹⁹ Adran 362AE (1) y Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol osod rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o "wasanaeth dethol teledu" neu "offer teledu rhyngwrwd" (adran 362AE(7)).

¹²⁰ [The Internet Television Equipment Regulations 2024](#) (2024/1056).

¹²¹ Adran 362AF (1) y Ddeddf.

¹²² Adran 362AF (2) y Ddeddf.

- a) TSS yn cael ei ddefnyddio gan ddim llai na'r nifer o aelodau o'r cyhoedd yn y DU a bennir yn y rheoliadau;
- b) y dyddiad pan fydd TSS ar gael am y tro cyntaf i aelodau o'r cyhoedd yn y DU; a'r
- c) swyddogaethau y gall TSS eu cyflawni, neu mae'n bosibl iddo allu eu cyflawni.¹²³

Adroddiad Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol

- A3.11 Cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu gwneud rheoliadau dynodi, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom, sy'n cynnwys argymhellion Ofcom ar ymarfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol o'i bwerau i wneud rheoliadau i ddynodi'n unigol neu i ddynodi drwy ddisgrifiad.
- A3.12 Caiff Ofcom benderfynu ar ei liwt ei hun i ddarparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a gall wneud argymhellion mewn perthynas ag arfer y naill bŵer neu'r llall o, neu'r ddau.¹²⁴ Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiad gan Ofcom, ac os felly mae'n rhaid i ni ddarparu un.¹²⁵ Wrth wneud cais o'r fath, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi disgrifiad o'r TSS y mae'n bwriadu ei ddynodi i Ofcom a gofyn am gyngor ar y disgrifiad hwnnw.
- A3.13 Os awgrymir argymhell dynodiad unigolyn, rhaid i adroddiad Ofcom gynnwys ein hasesiad o'r canlynol:
- a) nifer yr aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n defnyddio'r TSS dan sylw ac a yw'r nifer hynny'n sylweddol;
 - b) y modd y mae'r TSS hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan y personau hynny;
 - c) a yw'r TSS hwnnw'n gallu gweithredu fel RTSS wedi'i reoleiddio a'r addasiadau, os o gwbl, sydd eu hangen iddo allu gwneud hynny; ac
 - d) unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod.¹²⁶
- A3.14 Os awgrymir argymhell dynodiad drwy ddisgrifiad, rhaid i adroddiad Ofcom gynnwys ein hasesiad o'r canlynol:
- a) pa TSS sy'n debygol o ddod o fewn y disgrifiad o TSS a nodir yn yr adroddiad; ac
 - b) unrhyw faterion y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r asesiad hwnnw.¹²⁷
- A3.15 Mae rôl Ofcom o ran paratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol wedi'i chyfyngu i argymhellion ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi TSS. Nid oes pŵer statudol i Ofcom ei hun ddynodi TSS.¹²⁸
- A3.16 Bydd unrhyw TSS a ddynodir gan reoliadau dynodiad unigol yn dod yn RTSS. Bydd unrhyw TSS sy'n bodloni disgrifiad a nodir mewn rheoliadau dynodi drwy ddisgrifiad yn dod yn

¹²³ Adran 362AF (3) y Ddeddf.

¹²⁴ Adran 362AG (1) y Ddeddf.

¹²⁵ Adran 362AG(2) a (3) y Ddeddf.

¹²⁶ Adran 362AG (4) y Ddeddf.

¹²⁷ Adran 362AG (5) y Ddeddf.

¹²⁸ Mae'r sefyllfa'n wahanol o ran dynodi IPS, lle mae gan Ofcom y pŵer i ddynodi IPS ei hun (adran 362AA(2) y Ddeddf).

RTSS, a rhaid i ddarparwr TSS¹²⁹ roi hysbysiad i Ofcom os yw'r TSS yn, neu'n dod yn TSS a gwmpesir gan y disgrifiad.¹³⁰ Yn yr un modd, rhaid i unrhyw RTSS roi hysbysiad pan fo o'r farn nad yw mwyach yn cael ei gwmpasu gan yn y disgrifiad a bennir yn y rheoliadau.¹³¹

Datganiad Ofcom o egwyddorion a dulliau

- A3.17 Rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gwneud argymhellion ynghylch arfer ei bwerau i wneud rheoliadau dynodi.¹³²
- A3.18 Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwnnw a rhaid inni gyhoeddi'r datganiad diwygiedig neu'r datganiad newydd.¹³³

Effaith dynodiad

- A3.19 Pan fydd IPS a TSS yn cael eu dynodi, rhaid i ddarparwyr y DIPS a'r RTSS hynny gydymffurfio â'r drefn newydd. Darparwr DIPS fydd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus perthnasol, neu'r unigolyn sy'n gysylltiedig â'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hwnnw.¹³⁴ Darparwr RTSS fydd y person sydd â rheolaeth gyffredinol dros y ffordd y mae'r TSS yn cyflwyno'r IPS sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth i'w ddefnyddwyr.¹³⁵
- A3.20 Er mwyn i IPS sy'n cael ei gynnig gan PSB, ar wahân i'r BBC, gael ei ddynodi, rhaid i Ofcom fod yn fodlon ei fod yn briodol dynodi'r gwasanaeth. Rhaid i Ofcom hefyd gredu bod y gwasanaeth yn gwneud, neu pe bai'n cael ei ddynodi, yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y sianel PSB; a bod cynnwys y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn hawdd i'w ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS.¹³⁶
- A3.21 Bydd darparwyr DIPS yn rhwym wrth rwymedigaeth "rhaid cynnig", a bydd darparwyr RTSS yn rhwym wrth rwymedigaeth "rhaid cario":
- A3.22 Mae'r rhwymedigaeth "rhaid cynnig" yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr DIPS gynnig ei DIPS i bob darparwr RTSS.¹³⁷ Rhaid i'r darparwr DIPS wneud ei orau i sicrhau, mewn

¹²⁹ Yr unig berson sydd i'w drin fel rhywun sy'n darparu TSS yw'r person sydd â rheolaeth gyffredinol dros y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cyflwyno i'w ddefnyddwyr yr IPS sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth. Mae hyn yn wir ni waeth a yw'r TSS yn defnyddio algorithm i bennu'r amlygrwydd a roddir i ISP neu unrhyw raglenni a ddarperir gan ISP sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth (adran 362AE(5) a (6) y Ddeddf).

¹³⁰ Adran 362AH y Ddeddf. Mae TSS wedi'i ddynodi ac yn ddarostyngedig i rwymedigaethau statudol RTSS cyn gynted ag y bydd yn bodloni disgrifiad mewn rheoliadau, p'un a yw'r darparwr perthnasol yn rhoi gwybod i Ofcom ai peidio. Byddai methu â hysbysu Ofcom yn torri'r ddyletswydd yn adran 362AH; byddai methu â chydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol yn achos ar wahân o dorri'r dyletswyddau perthnasol.

¹³¹ Ar ddechrau'r drefn newydd, bydd Ofcom yn cyhoeddi ac yn cynnal rhestr gyffredol o RTSS (gan gynnwys y darparwyr RTSS). Bydd y rhestrau'n cael eu cyhoeddi ar ran o wefan Ofcom sydd ar gael i'r cyhoedd (adran 362AI y Ddeddf).

¹³² Adran 362AG (9) y Ddeddf.

¹³³ Adran 362AG (10) y Ddeddf.

¹³⁴ Adran 362AA (2) y Ddeddf.

¹³⁵ Adran 362AE (5) y Ddeddf. Mae adran 362AE(6) y Ddeddf yn dweud nad yw'r ffaith bod TSS yn dibynnu i unrhyw raddau ar algorithmau i bennu'r amlygrwydd a roddir i ISP neu unrhyw raglen a ddarperir gan yr IPS yn atal person rhag cael rheolaeth gyffredinol.

¹³⁶ Adran 362AA (2) - (5) y Ddeddf.

¹³⁷ Adran 362AJ (1) y Ddeddf. Nid yw adran 362AJ(1) i (3) yn gymwys i'r BBC.

perthynas â phob RTSS, bod cytundebau'n cael eu gwneud a'u cadw mewn grym i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn y RTSS.¹³⁸

- A3.23 Mae'r rhwymedigaeth "rhaid-cario" yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr RTSS, mewn perthynas â phob DIPS, ymrwymo i drefniadau gyda darparwr y DIPS er mwyn i'r RTSS gynnwys y DIPS hwnnw a chadw trefniadau o'r fath mewn grym.¹³⁹ Bydd yn rhaid i ddarparwyr RTSS hefyd sicrhau bod y DIPS a, lle bo'n briodol, cynnwys ar y DIPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylch gwaith y PSB yn cael lefel briodol o amlygrwydd ar eu gwasanaethau.¹⁴⁰ Rhaid i'r gwasanaethau hyn hefyd fod ar gael i'r rheini sydd ag anabledau (yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar olwg neu glyw).¹⁴¹ Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi cod ymarfer sy'n argymhell y camau y dylai darparwyr RTSS eu cymryd wrth geisio sicrhau bod cyflwyno IPS i'w ddefnyddwyr yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hygyrchedd hynny.¹⁴²
- A3.24 Mae gan ddarparwyr DIPS a RTSS ddyletswydd i weithredu'n gyson â'r "amcanion cytundeb" wrth negodi'r trefniadau sy'n ofynnol i fodloni gofynion eu rhwymedigaethau "rhaid cario" a "rhaid cynnig".¹⁴³ Amcanion y cytundeb yw: (a) mae DIPS yn cael lefel briodol o amlygrwydd mewn RTSS (sy'n cynnwys cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ac unrhyw sianel wedi'i rhestru sydd wedi'i chynnwys yn y DIPS);¹⁴⁴ (b) nid yw'r trefniadau rhwng y darparwyr yn cael effaith niweidiol ar allu darparwr y gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ei sianel; ac (c) nid yw'r trefniadau'n cyfyngu'n anghymesur ar sut y gall darparwr RTSS wneud datblygiadau arloesol yn y ffyrdd y gall defnyddwyr ddewis a chael mynediad at IPS.¹⁴⁵ Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut gall darparwyr DIPS a darparwyr RTSS weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb.¹⁴⁶
- A3.25 Mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaeth datrys anghydfod¹⁴⁷ a phwerau gorfodi i Ofcom.¹⁴⁸

Dyletswydd twf economaidd

- A3.26 Mae Adran 108 Deddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried dymunoldeb hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:
- bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a
 - bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.¹⁴⁹

¹³⁸ Adran 362AJ (2) y Ddeddf.

¹³⁹ Adran 362AK y Ddeddf.

¹⁴⁰ Adran 362AO(1) a (3) y Ddeddf.

¹⁴¹ Adran 362AO (4) y Ddeddf.

¹⁴² Adran 362AP (1) y Ddeddf.

¹⁴³ Adrannau 362AJ(3) a 362AK(2) y Ddeddf.

¹⁴⁴ Adran 362AM (2) y Ddeddf.

¹⁴⁵ Adran 362AM (1) y Ddeddf.

¹⁴⁶ Rhaid i ganllawiau Ofcom hefyd gynnwys sut gall y BBC weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb wrth gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau o dan Siarter a Chytundeb y BBC sy'n debyg i'r gofyniad ar ddarparwyr DIPS eraill o dan adran 362AJ(3) (adran 362AL(2) y Ddeddf).

¹⁴⁷ Adrannau 362AT i 362AY y Ddeddf.

¹⁴⁸ Adrannau 362AZ i 362Z5 y Ddeddf.

¹⁴⁹ Adran 108(2)(b) Deddf Dadreoleiddio 2015.

- A3.27 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod ysgogwyr twf economaidd yn cynnwys arloesedd a chystadleuaeth.

Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

- A3.28 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.
- A3.29 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategoriâu a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

Dyletswydd y Gymraeg

- A3.30 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio³⁸ Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.
- A3.31 Mae'r Safonau Llunio Polisi Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.

- E-bost gan Ofcom
- Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- Arall (rhowch fanlyon)

A4.1 Mae'r blwch isod yn cyflwyno'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori hon.

Cwestiwn 1:

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu nifer y defnyddwyr TSS yn y DU?

Cwestiwn 2:

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu a yw nifer y defnyddwyr TSS yn y DU yn ddigonol?

Cwestiwn 3:

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu sut caiff TSS ei ddefnyddio?

Cwestiwn 4:

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig i roi cyngor ar y swyddogaethau y mae TSS yn gallu, neu mae'n bosibl iddo allu, eu cyflawni?

Cwestiwn 5:

Ydych chi'n cytuno â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu unrhyw faterion ychwanegol?

A4.2 Yn ogystal â chwestiynau'r ymgynghoriad, rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau atodol. Mae'r rhain yn gofyn am farn ar ein syniadau sy'n dod i'r amlwg ynghylch sut byddwn yn mynd ati i lunio ein hadroddiad cyntaf gan nodi ein hargymhellion a dynodiad TSS os bydd yr egwyddorion a'r dulliau a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r rhain i'w gweld yn y blwch isod.

Cwestiwn Atodol 1:

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar y defnydd posibl hwn o 'nifer y TSS sydd wedi'u gosod ar ddyfeisiau ITE yng nghartrefi'r DU' fel procsi, ac ar bosiblwydd defnyddio nifer absoliwt o ddefnyddwyr yn y DU wrth osod trothwy ar gyfer defnydd sylweddol

yn ein hadroddiad cyntaf sy'n nodi ein hargymhellion ar ddynodi TSS. Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn. .

Cwestiwn Atodol 2:

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar y dull posibl o asesu'r dull o ddefnyddio TSS ar gyfer ein hadroddiad cyntaf sy'n cynnwys ein hargymhellion ar ddynodi TSS. Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn.

Cwestiwn Atodol 3:

Rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth ategol ar gyfer ein hadroddiad cyntaf sy'n nodi ein hargymhellion ar ddynodi TSS ar:

- Nifer y bobl sy'n defnyddio fersiynau hŷn o TSS nad ydynt yn cael eu cefnogi gan eu darparwr mwyach;
- Pan fydd darparwyr TSS yn rhyddhau fersiwn newydd o'u gwasanaeth, am ba hyd maen nhw fel arfer yn ei gefnogi?
- Pan fydd darparwyr IPS yn rhyddhau fersiwn newydd o'u gwasanaeth, am ba hyd maen nhw fel arfer yn ei gefnogi?
- Y cyfyngiadau technegol a/neu'r costau sy'n gysylltiedig â chefnogi fersiynau hŷn o TSS a fersiynau hŷn o IPS sydd ar gael o hyd yn y farchnad.

A4.3 Rydym yn bwriadu ystyried gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r cwestiynau atodol hyn wrth ddatblygu ein hargymhellion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na chwblhau ein Datganiad o Egwyddorion a Dulliau. Fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon ac yn ein hamserlen gweithredu,¹⁵⁰ byddwn yn ymgynghori ar ein hargymhellion arfaethedig cyn cyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol.

¹⁵⁰ Ofcom, 2024, [Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau](#).

A5. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A5.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 5 Chwefror 2025.
- A5.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb yn <https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/consultation-designation-of-television-selection-services/>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A5.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fydech chi cystal â'i anfon dros e-bost at mediaact.part2@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. Bydd y cyfeiriad e-bost hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ymgynghoriad hwn ac ymgynghoriadau pellach sy'n ymwneud â gweithredu Rhan 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024.
- A5.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan nodi teitl yr ymgynghoriad arnynt:
- Tîm Polisi Cynnwys
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
- A5.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- > anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
 - > gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A5.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)
- A5.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A5.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A5.9 Byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn **Atodiad 4**. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A5.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm drwy anfon neges e-bost i mediaact.part2@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A5.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A5.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhwch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A5.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A5.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A5.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

Y camau nesaf

- A5.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ddechrau 2025.
- A5.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A5.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 6.
- A5.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym wrth ein bodd yn cael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A5.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road

London SE1 9HA

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A6. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosib. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

A7. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- > Dim
- > Enw/manylion cyswllt/teitl swydd
- > Yr ymateb cyfan
- > Sefydliad
- > Rhan o'r ymateb

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw Nac ydw

Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)